Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Diolchiadau

Y sefydliadau sydd wedi cyfrannu at y safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu cenedlaethol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 21 Hydref 2022

Diweddariad olaf: 2 Hydref 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol/safonau-diogelu-diolchiadau am y fersiwn diweddaraf.

Y sefydliadau sydd wedi cyfrannu at y safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu cenedlaethol.

Aelodau'r grŵp datblygu

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Grŵp Rheolwyr Hyfforddiant Cymru Gyfan
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg
- Heddlu Dyfed Powys ar ran ardaloedd y Pedwar Llu Heddlu yng Nghymru
- Blynyddoedd Cynnar Cymru
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gwent
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Gwasanaethau Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- M and D Care / Fforwm Gofal Cymru
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Grŵp Cenedlaethol Arweinwyr Diogelu Oedolion
- Grŵp Cenedlaethol Arweinwyr Diogelu Plant
- Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru)
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol
- PACEY Cymru
- Grŵp Pobl
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

- Llywodraeth Cymru
- Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg

Hoffem ddiolch i Gadeiryddion y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol am eu cefnogaeth a'u cymeradwyaeth i'r gwaith hwn.

Hoffem ddiolch hefyd i'r holl is-grwpiau eraill, grwpiau sector a'r grŵp cynrychiolwyr proffesiynol sydd wedi cyfrannu at y gwaith hwn.

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Ynglŷn â'r safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol

Rydyn ni wedi bod yn arwain ar y gwaith i ddatblygu'r safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 21 Hydref 2022

Diweddariad olaf: 2 Hydref 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol/safonau-diogelu-ynglyn am y fersiwn diweddaraf.

Rydyn ni wedi bod yn arwain ar y gwaith i ddatblygu'r safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn arwain y gwaith o ddatblygu'r safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol.

Mae'r safonau wedi'u cyd-gynhyrchu gan grŵp datblygu cenedlaethol amlasiantaethol yn ogystal â grwpiau eraill sydd wedi canolbwyntio ar agweddau penodol ar y gwaith.

Datblygwyd y safonau oherwydd:

- nad oedd unrhyw safonau cenedlaethol, amlasiantaethol ar gyfer hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol
- bod diffyg cysondeb o ran dylunio, cynnwys a darparu hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu ar draws sefydliadau yng Nghymru
- bod dryswch ynghylch y lefelau priodol o hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu ar gyfer y gweithlu.

Bydd y safonau'n helpu sefydliadau i sicrhau:

- eu bod yn ymgorffori'r safonau ar gyfer ymarferwyr yn eu polisïau a'u gweithdrefnau diogelu
- bod ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau sy'n berthnasol i'r grŵp y maent yn perthyn iddo a sut i ddilyn y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol
- bod Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael i bob ymarferydd a’u bod yn cydymffurfio â nhw.

Ar gyfer pwy mae'r safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu?

Mae'r safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu yn berthnasol i bawb sy'n gweithio yn y meysydd canlynol:

- awdurdodau lleol
- gofal cymdeithasol
- blynyddoedd cynnar a gofal plant
- iechyd
- yr heddlu
- addysg
- prawf
- arolygiaethau
- sefydliadau'r trydydd sector a'r sector annibynnol
- darparwyr sydd wedi’u comisiynu
- asiantaethau neu sefydliadau sy'n gweithio gyda'r holl wasanaethau uchod.

Mae’n hollbwysig bod pob asiantaeth yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau diogelu effeithiol ac mae'r safonau'n annog hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu amlasiantaethol lle bynnag y bo modd.

Mae cyfoeth o wybodaeth i'w hennill drwy gael eich hyfforddi ochr yn ochr â phartneriaid amlasiantaethol, a all arwain at fwy o gydweithio a gwell canlyniadau i bobl. Mae egwyddorion diogelu a'r gwerthoedd sy'n gysylltiedig â hyn yr un fath i bawb.

Pwyntiau pwysig i’w nodi

Bydd y pwyntiau canlynol yn cael eu hailadrodd yn y safonau yn yr adrannau perthnasol.

1. Mae’r safonau hyn yn cyfeirio at rai rolau enghreifftiol, ond nid ydynt yn nodi’r holl rolau a chyfrifoldebau ar draws y sector. Felly, dyletswydd sefydliadau yw nodi o fewn eu gweithlu eu hunain, pa rolau sy’n gweddu i grwpiau penodol.

   Wrth bennu hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu priodol ar gyfer pob aelod staff, bydd angen i’r sefydliad sicrhau bod yr aelod staff wedi ei osod yn y grŵp sy’n briodol ar ei gyfer.

   Os yw sefydliadau neu reolwyr yn ansicr pa grŵp yw’r un priodol, ac os yw’r rôl yn perthyn i fwy nag un grŵp, disgwylir i’r ymarferydd gael ei hyfforddi yn y grŵp uwch. Er enghraifft, os yw gweithiwr yn perthyn i grŵp B ac C, dylid ei hyfforddi ar lefel grŵp C.

2. Drwy’r safonau i gyd, disgwylir i bob ymarferydd sy’n cychwyn mewn rôl newydd o grŵp B ymlaen fod wedi cwblhau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu yn y grwpiau blaenorol cyn cychwyn y rôl.

   Fel arall, dylid ei gefnogi i gwblhau’r hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu yn ystod chwe mis cyntaf ei gyfnod sefydlu neu o fewn amserlen y cytunwyd arni gyda'u rheolwr neu sefydliad comisiynu.

3. Yn y grwpiau C i E, disgwylir i ymarferwyr wneud hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cyffredinol a hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu sy’n benodol i’r rôl. Bydd yr adran gyffredinol yn cynnwys hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu y dylai pob ymarferydd yn y grwpiau hyn ei gwblhau beth bynnag yw eu rôl neu’r sefydliad.

   Yn ogystal â’r hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cyffredinol, fodd bynnag, bydd angen cytuno’n ffurfiol pa hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu sy’n benodol i’r rôl fel rhan o gynllun hyfforddi, dysgu a datblygu

personol yr unigolyn a bydd yn adlewyrchu elfennau penodol o'i rôl a'i gyfrifoldebau.

Y termau rydym ni wedi'u defnyddio

Mae'r term 'diogelu pobl' yn cynnwys plant, pobl ifanc hyd at 18 oed ac oedolion sydd mewn perygl.

Rydym wedi defnyddio'r term 'ymarferydd' yn y safonau fel eu bod yn cyd-fynd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Rydym wedi rhannu'r safonau yn chwe grŵp (A i F) sy'n adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau pobl a allai fod yn ymwneud ag ymarfer diogelu.

Dewisodd y grŵp Datblygu Safonau Diogelu Cenedlaethol amlasiantaethol y term 'grwpiau' a chytunodd y bydd y grwpiau'n gyson â'r lefelau a nodir yn y rolau a'r cymwyseddau ar gyfer staff gofal iechyd (plant ac oedolion). Felly mae grŵp A, er enghraifft, yn cyfateb i Lefel 1.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y termau rydym wedi'u defnyddio yn **yr eirfa**.

Sut mae'r safonau wedi'u trefnu

Diben y safonau hyn yw sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cyson o ansawdd da sy'n berthnasol i'w rôl a'u cyfrifoldebau, ac y gallwn ni, fel ymarferwyr, ddiogelu pobl hyd eithaf ein gallu.

Os yw ymarferydd yn perthyn i:

- Grŵp A – mae’r grŵp hwn ar gyfer pawb. Mae angen iddynt gael ymwybyddiaeth ar lefel sylfaenol o ddiogelu a gwybod sut i roi gwybod am bryder
- Grŵp B – mae’r grŵp hwn ar gyfer pobl sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl. Dylent fod â gwybodaeth uwch am ddiogelu, gwybod â phwy i siarad os ydynt yn sylwi bod rhywbeth o'i le a sut i roi gwybod am bryder
- Grŵp C – mae’r grŵp hwn ar gyfer pobl sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ac sydd gyda chyfrifoldebau diogelu penodol. Mae angen iddynt allu ymateb i bryderon diogelu.

Y grwpiau eraill yw:

- Grŵp D – mae’r grŵp hwn yn bennaf ar gyfer asiantaethau statudol sydd â phwerau gwneud penderfyniadau lefel uwch
- Grŵp E – mae’r grŵp hwn yn bennaf yn cynnwys personél gwasanaethau cymdeithasol mewn rolau arwain strategol, ynghyd â'u partneriaid statudol allweddol
- Grŵp F – mae’r grŵp hwn yn cynnwys pob arweinydd yn y sector cyhoeddus.

Mae'r safonau'n berthnasol i bobl o bob oed, ond rydym yn sylweddoli y bydd rhai ymarferwyr yn arbenigo mewn gweithio gydag oedolion neu blant. Caiff hyn ei gydnabod yn y fframwaith hyfforddi sy'n cyd-fynd â'r safonau hyn.

Gall gwaith diogelu fod yn emosiynol ac anodd ac felly mae'r safonau'n tanlinellu'r angen i gefnogi ymarferwyr a hyrwyddo eu lles.

Heb gefnogaeth, gall ymarferwyr orweithio, a dioddef blinder tosturiol, trawma eilaidd a straen difrifol. Gall hyn arwain at salwch ymhlith y staff, staff yn gadael eu rôl a diffyg parhad a chysondeb i gleientiaid sy’n aml yn wynebu'r perygl mwyaf.

Ceir enghreifftiau o arferion diogelu rhagorol ledled Cymru, ac rydym yn annog pobl i rannu arferion da. Ewch i wefan eich Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i gael rhagor o wybodaeth am hyn.

Adeiladu gwybodaeth

Mae'r safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu wedi'u hysgrifennu mewn modd sy'n dangos beth y mae disgwyl i bob ymarferydd ei wneud wrth gyflawni ei ddyletswydd diogelu.

Bydd gan bob grŵp o ymarferwyr gyfrifoldebau gwahanol. Bydd cyfleoedd hyfforddi, dysgu a datblygu yn cyfateb i rôl yr ymarferydd fel ei fod wedi'i baratoi'n dda ac yn meddu ar y sgiliau i gyflawni ei rôl.

Wrth edrych ar y safonau ar draws y grwpiau, gall ymddangos yn ailadroddus, ond bydd angen i ymarferwyr mewn gwahanol grwpiau fod â gwybodaeth a dealltwriaeth fanylach oherwydd y cyfrifoldebau sydd ganddynt.

Felly, bydd yr hyfforddiant a ddarperir ar gyfer pob grŵp yn archwilio'r un pynciau yn fanylach. Dyma rai ohonynt:

- y gyfraith a'r fframwaith cyfreithiol
- rolau gwahanol asiantaethau a gwaith amlasiantaethol.

Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o ymarferwyr yn cwblhau e-ddysgu grŵp A (neu gymhwyster cyfatebol) ar ryw adeg yn eu gyrfa. Gall sefydliadau a rheolwyr neu cyflogwyr osod gofynion o fewn eu sefydliad i gwblhau'r modiwl hwn.

Hyfforddiant gloywi

Pan fydd ymarferwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu sy'n ofynnol ar gyfer y safonau sy'n gysylltiedig â'u rôl, byddant yn parhau â'u hyfforddiant gloywi diogelu yn unol â'u rôl a'u cyfrifoldebau ar gyfer y grŵp hwnnw.

Er enghraifft, bydd ymarferwyr grŵp C sydd wedi cwblhau eu hyfforddiant, dysgu a datblygu craidd yn ystyried hyfforddiant, dysgu a datblygu gloywi mewn meysydd fel cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, Atal a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ni fydd disgwyl iddynt ailadrodd hyfforddiant, dysgu a datblygu sy'n gysylltiedig â grwpiau A a B oni bai bod eu sefydliad yn ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny.

Mae'r safonau a osodir ar gyfer grŵp A yn hanfodol i bob ymarferydd, ym mhob grŵp. Mae'r safonau hyn yn cwmpasu'r meysydd allweddol o ddiogelu a heb y wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon, gellid gwneud camgymeriadau a bydd pobl mewn perygl.

Mae'n ofynnol i ymarferwyr sydd wedi'u cynnwys yng ngrŵp A fod yn **ymwybodol** o faterion diogelu ac felly pennir y safonau i adlewyrchu'r lefel ofynnol o wybodaeth ac ymarfer sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl.

Er enghraifft, bydd ymarferydd grŵp A yn deall bod yna gyfraith ar gyfer diogelu pobl.

Bydd gan yr ymarferwyr yng ngrŵp B **fwy o gyfrifoldeb** dros ddiogelu felly pennir y safonau ar gyfer ymarferwyr grŵp B fel bod yr hyfforddiant, dysgu a datblygu yn eu helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o faterion diogelu.

Er enghraifft, bydd angen i ymarferwyr grŵp B ddangos eu bod yn **deall** y gyfraith ac yn ei rhoi ar waith fel rhan o'u gwaith bob dydd.

Ar gyfer ymarferwyr grŵp C, mae eu **dyletswyddau diogelu yn fwy** a bydd ganddynt benderfyniadau i'w gwneud ynghylch cadw pobl yn ddiogel a phryd y mae angen iddynt roi prosesau amddiffyn ar waith.

Bydd angen i'r ymarferwyr hyn gael yr holl wybodaeth a dealltwriaeth o'r safonau yng ngrwpiau A a B **ynghyd â** gwybodaeth ychwanegol i sicrhau eu bod yn cyflawni eu rôl yn unol â'r gyfraith.

Er enghraifft, bydd ymarferwyr grŵp C yn **deall** y gyfraith **ac yn gallu ei chymhwyso** i'w gwaith diogelu ac amddiffyn o ddydd i ddydd.

Mae ymarferwyr grŵp D yn aml yn meddu ar rolau diogelu arbenigol, naill ai yn ogystal â phrif rôl neu fel ymarferwyr diogelu arbenigol.

Byddant yn **rhoi cyngor a chefnogaeth** i'w cydweithwyr yn eu timau a'u sefydliad a thu hwnt. Bydd angen gwybodaeth a dealltwriaeth arnynt o'r safonau ar gyfer grwpiau A i C a bydd ganddynt **brofiad a gwybodaeth** hefyd o weithio mewn sefyllfaoedd mwy cymhleth.

Er enghraifft, bydd gan ymarferwyr grŵp D ddealltwriaeth drylwyr o gyfraith diogelu ac amddiffyn. Byddant hefyd yn cefnogi cydweithwyr i roi'r gyfraith ar waith yn eu gwaith bob dydd wrth wneud penderfyniadau ar ddiogelwch unigolyn.

Deddfwriaeth a chanllawiau allweddol

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth. Mae'r Ddeddf yn cynnwys 11 rhan, gyda rhan 7 yn ymwneud â diogelu. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn darparu'r fframwaith ar gyfer Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

I gyd-fynd â'r Ddeddf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau diogelu statudol, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl.

Lluniwyd Gweithdrefnau Diogelu Cymru i alluogi ymarferwyr rheng flaen a'u rheolwyr i gymhwyso gofynion a disgwyliadau deddfwriaethol y Ddeddf.

Y nod yw gwella canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer oedolion a phlant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu niweidio a'u hesgeuluso. Mae'r gweithdrefnau'n cydnabod deddfwriaethau, canllawiau a phrotocolau eraill hefyd.

- Deddf Plant 1989
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (fel y'i diwygiwyd) – dylech sicrhau bod ysbryd y Ddeddf yn rhan annatod o ymarfer ar gyfer pob oedolyn sy'n wynebu risg

Deddfwriaeth a chanllawiau ychwanegol (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr)

- Deddf Cam-drin Domestig (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)) 2015
- Deddf Cam-drin Domestig 2021
- Rhaid i bobl deimlo eu bod yn bartner cyfartal yn eu perthynas â gweithwyr proffesiynol. Mae'r Cod Ymarfer o dan Ran 10 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi sut y mae'n rhaid i awdurdodau lleol, mewn partneriaeth â'r person, benderfynu sut y gellid

defnyddio eiriolaeth i gefnogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol
- y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn enwedig Erthyglau 2,3,5,6 ac 8
- Egwyddorion Pobl Hŷn y Cenhedloedd Unedig
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Safonau'r Gymraeg a'r Fframwaith Mwy na Geiriau
- Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020
- Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) 2003
- Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015
- Deddf cyfiawnder ieuenctid a thystiolaeth droseddol 1999
- Sicrhau'r dystiolaeth orau 2002 (canllawiau)
- Y côd ymarfer ar gyfer dioddefwyr troseddau yng Nghymru a Lloegr
- Canllawiau statudol – Cadw dysgwyr yn ddiogel (addysg)
- Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Canllawiau statudol Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl

Gallwch ddod o hyd i ganllawiau statudol perthnasol eraill ar gyfer eich sefydliad neu'ch proffesiwn drwy gysylltu â'ch Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) bum egwyddor:

- llais a rheolaeth – yr unigolyn
- atal ac ymyrraeth gynnar – i atal problemau rhag gwaethygu

- llesiant – unigolion, i'w hyrwyddo gan bawb sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf
- cyd-gynhyrchu - rhwng y person a'r asiantaethau, ar draws asiantaethau a sectorau, cyd-gynhyrchu gwasanaethau ac atebion
- amlasiantaethol – yn yr achos hwn, mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb.

Yr egwyddorion sy'n sail i ymarfer diogelu yng Nghymru yw:

- mae diogelu ac amddiffyn yn gyfrifoldeb i bawb
- mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn/person bob amser.

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Egwyddorion cofiadwy

Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu cenedlaethol: egwyddorion cofiadwy

Cyhoeddwyd gyntaf: 21 Hydref 2022

Diweddariad olaf: 2 Hydref 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol/safonau-diogelu-egwyddorion-cofiadwy am y fersiwn diweddaraf.

Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu cenedlaethol: egwyddorion cofiadwy

I bawb

- Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb

Grŵp A

- Rwy’n gwybod beth yw ystyr y term diogelu
- Rwy’n gwybod beth i gadw llygad amdano
- Rwy’n gwybod i bwy y dylwn roi gwybod

Grŵp B

- Rwy’n rhan allweddol o'r broses ddiogelu
- Rwy'n gwybod pryd, sut ac i bwy y dylwn roi gwybod
- Byddaf yn sicrhau bod llais yr unigolyn yn cael ei glywed

Grŵp C

- Rwy’n deall bod llais a rheolaeth pobl yn allweddol i'r broses o wneud penderfyniadau – ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn/person
- Rwy’n deall rolau a chyfrifoldebau pawb yn y broses ddiogelu
- Rwy’n dangos y gallu i wneud penderfyniadau clir a chymesur

Grŵp D

- Byddaf yn arwain agenda ddiogelu'r sefydliad
- Byddaf yn sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed ar bob cam o'r broses
- Byddaf yn defnyddio fy ngwybodaeth a'm harbenigedd i wella arferion diogelu

Grŵp E

- Rwy’n goruchwylio’n strategol yr holl faterion diogelu o fewn y sefydliad
- Byddaf yn ceisio sicrhau bod gennym ddigon o adnoddau i gyflawni dyletswyddau diogelu'r sefydliad
- Byddaf yn defnyddio fy ngwybodaeth a'm dylanwad i wella arferion diogelu yn rhanbarthol ac yn genedlaethol

Grŵp F

- Rwy’n rhoi arweiniad sy'n cwmpasu diogelu yn y sector cyhoeddus ac sy'n hyrwyddo gwaith amlasiantaethol bob amser
- Rwy’n deall elfennau craidd diogelu a pham mae hwn yn faes pwysig
- Rwy’n cael arweiniad a sicrwydd gan ymarferwyr grŵp E ar feysydd sy'n peri pryder

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Grwpiau ymarferwyr: hierarchaeth

Hierarchaeth grwpiau ymarferwyr safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 Hydref 2022

Diweddariad olaf: 2 Hydref 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol/safonau-diogelu-grwpiau-ymarferwyr-hierarchaeth am y fersiwn diweddaraf.

Hierarchaeth grwpiau ymarferwyr safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol.

Grwpiau ymarferwyr: hierarchaeth

Bydd unrhyw hyfforddiant, dysgu a datblygu a wneir mewn grŵp uwch yn golygu nad oes angen adnewyddu hyfforddiant, dysgu a datblygu yn y grwpiau oddi tano.

Grŵp F (arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus)

Angen cwblhau grŵp A – hyfforddiant, dysgu a datblygu ymwybyddiaeth sylfaenol a phwrpasol perthnasol, megis rhianta corfforaethol, ond gellir galw arnynt i drafod materion/problemau yn grwpiau A i E.

Grŵp E (arweinydd sector / ymgynghoriaeth)

- Arweinwyr strategol
- Penderfynwyr

Grŵp D (arbenigwr)

- Rolau sydd â chyfrifoldebau diogelu plant a/neu oedolion penodol, fel arweinwyr diogelu a gweithwyr proffesiynol a enwir.

Grŵp C (lefel uwch)

- Ymarferwyr cofrestredig neu reoleiddiedig gyda rôl asesu, cynllunio, ymyrryd a gwerthuso. Bydd ganddynt rôl cynllunio diogelu glir (mynychu grŵp craidd, cynhadledd achos, cyfarfod strategaeth) a swyddogaeth statudol.

  Bydd y trydydd sector yn sicrhau bod rolau anstatudol perthnasol yn cael hyfforddiant ar y lefel hon hefyd.

Grŵp B (canolradd)

- Pob ymarferydd sy'n cael cysylltiad rheolaidd ag oedolion, plant ac aelodau'r cyhoedd yn eu rôl. Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr cofrestredig neu anghofrestredig neu reoleiddiedig neu anrheoleiddiedig a gwirfoddolwyr.

Grŵp A (ymwybyddiaeth sylfaenol)

- Pob aelod o staff sy'n gweithio ym maes: gofal cymdeithasol, gofal iechyd, adrannau awdurdodau lleol, addysg, y blynyddoedd cynnar, y trydydd sector a'r sector gwirfoddol (gwirfoddolwyr â thâl neu ddi-dâl) a chontractwyr annibynnol (gwasanaethau wedi'u comisiynu).

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Y broses ddiogelu

Y broses didiogelu yn y safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 21 Hydref 2022

Diweddariad olaf: 2 Hydref 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol/safonau-diogelu-y-broses-ddiogelu am y fersiwn diweddaraf.

Y broses didiogelu yn y safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol.

Gweld y wybodaeth yma mewn tabl.

Dylid gweld nifer uwch o staff y gwasanaethau cymdeithasol ar y lefelau uwch gan mai'r gwasanaethau cymdeithasol yw'r asiantaeth arweiniol ar gyfer diogelu a nhw yn aml sydd â'r gair olaf mewn perthynas â'r canlyniadau diogelu ar gyfer unigolion gyda gofynion diogelu lefel uchel.

Pob asiantaeth

Grŵp A

- Mwy o ymwybyddiaeth o ddiogelu

Grŵp B

- Gwybod beth y dylid edrych amdano a gwybodaeth glir am y broses adrodd a'ch cyfrifoldebau eich hun

Grŵp C

- Ymwneud â chynllunio diogelu a phenderfyniadau ynghylch unigolion yn y prosesau hyn

Grŵp D

- Asiantaethau statudol yn bennaf sydd â dyletswydd benodol mewn perthynas â'r broses amddiffyn plant neu oedolion.
- Gweithwyr proffesiynol sydd â chyfrifoldeb strategol dros sicrhau ansawdd, gwelliannau, a pholisi, canllawiau a phrotocolau mewn perthynas â diogelu.

Grŵp E

- Fel yr uchod

Grŵp F

- Pob arweinydd sector cyhoeddus

Gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar

Grŵp A

- Yr holl staff / gwirfoddolwyr

Grŵp B

- Gweithwyr cartrefi gofal, gweithwyr meithrinfa, nanis a chynorthwywyr gwarchodwyr plant, gweithwyr gofal cartref

Grŵp C

- Gweithwyr gofal preswyl i blant
- Rheolwyr gofal preswyl i blant
- Rheolwyr meithrinfeydd
- Gwarchodwyr plant
- Unigolion cyfrifol
- Person diogelu dynodedig

Iechyd

Grŵp A

- Yr holl staff / gwirfoddolwyr

Grŵp B

- Yr holl staff sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â chleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Gan gynnwys rheolwyr, gweinyddwyr, derbynyddion a myfyrwyr gofal iechyd priodol.

Grŵp C

- Nyrsio, bydwreigiaeth,
- ymwelwyr iechyd a staff nyrsio ysgol, staff meddygol
- Gwyddonwyr iechyd
- gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd
- Therapydd-ion

Grŵp D

- Gweithwyr iechyd proffesiynol a enwir a phobl gyfatebol
- Arweinwyr diogelu byrddau iechyd ac ymddiriedol-aethau

Grŵp E

- Gweithwyr clinigol proffesiynol o fewn tîm diogelu cenedlaethol y GIG
- Arweinwyr diogelu byrddau iechyd ac ymddiriedol-aethau

Grŵp F

- Swyddogion gweithredol ac aelodau Bwrdd byrddau ac ymddiriedol-aethau Iechyd y GIG

Addysg

Grŵp A

- Yr holl staff / gwirfoddolwyr

Grŵp B

- Cynorthwywyr addysgu
- Athrawon

Grŵp C

- Penaethiaid
- Person diogelu dynodedig

Grŵp D

- Arweinydd diogelu adran addysg yr awdurdod lleol

Grŵp F

- Cyfarwyddwyr addysg, llywodraethwyr ysgolion

Yr heddlu

Grŵp A

- Yr holl staff / gwirfoddolwyr

Grŵp C

- Gweithiwr y gwasanaeth prawf

- Swyddog prawf

Grŵp D

- Uwch swyddog prawf

Grŵp E

- Penaethiaid unedau cyflawni'r gwasanaeth prawf
- Penaethiaid gweithrediadau

Grŵp F

- Cyfarwyddwr prawf rhanbarthol a phennaeth diogelu'r cyhoedd
- Prif Weithredwr a Phrif Weithredwr Cynorthwyol

Prawf

Grŵp A

- Yr holl staff / gwirfoddolwyr

Grŵp C

- Gweithiwr y gwasanaeth prawf
- Swyddog prawf

Grŵp D

- Uwch swyddog prawf

Grŵp E

- Penaethiaid unedau cyflawni'r gwasanaeth prawf
- Penaethiaid gweithrediadau

Grŵp F

- Cyfarwyddwr prawf rhanbarthol a phennaeth diogelu'r cyhoedd
- Prif Weithredwr a Phrif Weithredwr Cynorthwyol

Yr adran gwasanaethau cymdeithasol

Grŵp A

- Yr holl staff / gwirfoddolwyr

Grŵp B

- Gweithwyr cymorth

Grŵp C

- Ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol
- Gweithwyr cymdeithasol

Grŵp D

- Rheolwyr tîm
- Rheolwyr gweithredol/ gwasanaeth
- Swyddogion dynodedig/ swyddog ynodedig ar gyfer diogelu awdurdodau lleol

Grŵp E

- Penaethiaid gwasanaeth – plant ac oedolion

- [Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol]

Grŵp F

- Aelodau Etholedig, Prif Weithredwr yr awdurdod lleol, cyfarwyddwyr awdurdodau lleol (ac eithrio cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol sy'n pontio ar draws E ac F – sefyllfa unigryw)

Trydydd Sector/Arall

Grŵp A

- Yr holl staff/ gwirfoddolwyr

Grŵp B

- Staff/gwirfoddolwyr mewn rolau sydd â chysylltiad uniongyrchol â phlant ac oedolion y gwyddys eu bod "mewn perygl" neu'n debygol o fod “mewn perygl”

Grŵp C

- Person diogelu dynodedig (neu bobl gyfatebol) rheolwyr /cyflogwyr gwasanaethau, unigolyn cyfrifol rhai lleoliadau.
- Ymddiriedolwr a enwir ar gyfer diogelu yn y rhan fwyaf o sefydliadau

Grŵp D

- Gwybodaeth arbenigol mewn un neu fwy o feysydd ymarfer diogelu – ceisir barn ar sail ranbarthol neu genedlaethol oherwydd y maes gwybodaeth arbenigol hwn
- Er enghraifft: cam-drin domestig, iechyd meddwl/ galluedd meddyliol, hunanladdiad, NSPCC, timau'r Comisiynydd Plant a Phobl Hŷn

Grŵp E

- Gwybodaeth arbenigol mewn un neu fwy o feysydd ymarfer diogelu – ceisir barn yn genedlaethol oherwydd y maes gwybodaeth arbenigol hwn. (Gweler yr enghreifftiau uchod yng ngrŵp D)
- Ymddiriedolwr a enwir ar gyfer diogelu mewn sefydliadau yn y meysydd hyn.

Grŵp F

- Gweinidogion Llywodraeth Cymru

Crynodeb o'r grwpiau

Mae chwech grŵp yn y safonau diogelu.

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 Hydref 2022

Diweddariad olaf: 2 Hydref 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol/safonau-diogelu-crynodeb-or-grwpiau am y fersiwn diweddaraf.

Mae chwech grŵp yn y safonau diogelu.

Gweld y wybodaeth yma mewn tabl.

Grŵp A

Grŵp A mewn mwy o fanylder.

Os gwelwch fod rhywbeth o'i le, neu os cewch reswm i boeni am rywbeth, dylech roi gwybod amdano.

Grŵp B

Grŵp B mewn mwy o fanylder.

Mae gennych ychydig mwy o wybodaeth am y pethau mae angen cadw llygad arnynt ac rydych chi'n meithrin perthnasoedd.

Rydych chi'n cael darlun ychydig mwy manwl o fywydau pobl, ond yn y bôn os ydych chi'n poeni neu'n pryderu, mae angen i chi roi gwybod amdano.

Gallwch chi drafod gyda'ch rheolwr llinell neu'r person diogelu dynodedig neu roi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol yn uniongyrchol.

Grŵp C

Grŵp C mewn mwy o fanylder.

Mae gennych rôl i'w chwarae y tu hwnt i adrodd ac uwchgyfeirio pryderon. Rydych yn asesu'n barhaus sut y gall eich asiantaeth reoli agweddau ar sail ataliol, a oes cymorth/gwasanaethau ychwanegol y gallech chi neu eraill fod yn eu darparu? Neu a yw hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid ei ddyrchafu i'r gwasanaethau cymdeithasol?

Mae ymarferwyr grŵp C yn ymateb i'r pryder rydych chi'n ei weld. Penderfynu a allwch ymateb i'r pryder diogelu o fewn eich asiantaeth eich hun neu a oes angen yr atgyfeiriad hwnnw arnoch i'r gwasanaethau cymdeithasol.

Gall ymarferwyr grŵp C fod yn berson diogelu dynodedig eu hasiantaethau/timau, efallai eich bod yn cefnogi a chynghori eraill, ac yn chwarae rhan weithredol mewn ymateb i bryderon diogelu sy'n codi yn eich lleoliad.

Mae angen i chi ddeall bod gwahaniaeth rhwng diogelu ac amddiffyn plant neu oedolion.

Byddwch hefyd o amgylch y bwrdd yn cyfrannu at gyfarfodydd strategaeth ac yn rhan o'r cynllun aml-asiantaeth ar gyfer y plentyn/person hwnnw.

Grŵp D

Grŵp D mewn mwy o fanylder.

Mae'r grŵp hwn yn debyg i grŵp C, gan ei fod yn dal i fod yn rôl weithredol, ond mae ar lefel gwneud penderfyniadau uwch.

Ni fyddai gan lawer o asiantaethau fewnbwn ar y lefel hon o reidrwydd, felly rydym yn siarad yn bennaf am asiantaethau statudol yng ngrŵp D.

Dyma'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau cymhleth iawn am yr hyn sy'n digwydd i unigolyn. Yn seiliedig ar bryderon diogelu, a oes angen eu rhoi mewn cyfleuster diogel? A oes angen inni fynd i'r llys i wneud cais am ryw fath o orchymyn?

A oes angen math penodol o becyn gofal a chymorth arnynt mewn perthynas â lleoliad? Yn gyffredinol, y bobl hyn fyddai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn eu sefydliadau mewn perthynas â diogelu.

Grŵp E

Grŵp E mewn mwy o fanylder.

Y grŵp hwn sy'n gwneud y penderfyniadau hynny na ellir eu gwneud ar lefel is. Er enghraifft, pan fydd yn rhaid i ymarferwyr grŵp D uwchgyfeirio achos i lefel uwch oherwydd ei fod mor anarferol, cymhleth, anodd neu gostus mewn perthynas â diogelu unigolyn neu ei fod yn cynnwys nifer o unigolion.

Mae ymarferwyr grŵp E hefyd yn darparu goruchwyliaeth strategol o'r broses ddiogelu a materion diogelu ehangach yn y sefydliad.

Grŵp F

Grŵp F mewn mwy o fanylder.

Lefel Swyddogion Gweithredol ac Uwch Reolwyr. Byddant yn gwrando ar gyngor arbenigol ac yn ei ddefnyddio i sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â gofynion diogelu ac yn gallu ailgyfeirio adnoddau os oes angen.

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Safonau diogelu grŵp A

Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol - grŵp A.

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 Hydref 2022

Diweddariad olaf: 2 Hydref 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol/safonau-diogelu-grwp-a am y fersiwn diweddaraf.

Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol - grŵp A.

Pwyntiau pwysig i’w nodi

Mae’r safonau hyn yn cyfeirio at rai rolau enghreifftiol, ond nid ydynt yn nodi’r holl rolau a chyfrifoldebau ar draws y sector. Felly, dyletswydd sefydliadau yw nodi o fewn eu gweithlu eu hunain, pa rolau sy’n gweddu i grwpiau penodol.

Wrth bennu hyfforddiant, dysgu a datblygu priodol ar gyfer pob aelod staff, bydd angen i’r sefydliad sicrhau bod yr aelod staff wedi ei osod yn y grŵp sy’n briodol ar ei gyfer.

Os yw sefydliadau neu reolwyr yn ansicr pa grŵp yw’r un priodol, ac os yw’r rôl yn perthyn i fwy nag un grŵp, disgwylir i’r ymarferydd gael ei hyfforddi yn y grŵp uwch. Er enghraifft, os yw gweithiwr yn perthyn i grŵp B ac C, dylid ei hyfforddi ar lefel grŵp C.

Rolau a chyfrifoldebau

Mae ymarferwyr grŵp A **i gyd** yn staff sy'n ymuno â sefydliad neu asiantaeth yn y sector cyhoeddus neu'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae'r safonau hyfforddi hefyd yn addas ar gyfer y rhai mewn lleoliadau sector preifat, gwirfoddolwyr ac aelodau etholedig awdurdodau lleol.

Nod y safonau yw rhoi dealltwriaeth i chi o ddiogelu a'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud mewn achosion o niwed neu gamdriniaeth wirioneddol neu bosibl.

Wrth edrych ar y safonau ar draws y grwpiau, efallai y bydd yn edrych fel eu bod yn cael eu hailadrodd. Fodd bynnag, bydd angen i ymarferwyr mewn

gwahanol grwpiau gael gwybodaeth a dealltwriaeth fanylach oherwydd y cyfrifoldebau sydd ganddynt. Felly, bydd yr hyfforddiant, dysgu a datblygu a ddarperir ar gyfer pob grŵp yn archwilio'r un pynciau yn fanylach. Bydd y **fframwaith hyfforddi, dysgu a datblygu** yn helpu i ddangos hyn.

Dylai ymarferwyr sydd wedi'u cynnwys yng ngrŵp A fod yn **ymwybodol** o faterion diogelu ac felly mae'r safonau yn y grŵp hwn wedi'u pennu i adlewyrchu'r lefel ofynnol o wybodaeth ac ymarfer sydd eu hangen ar gyfer eu rôl. Er enghraifft, bydd ymarferydd grŵp A yn ymwybodol bod yna gyfraith sy'n diogelu pobl.

Modiwl hyfforddiant diogelu grŵp A

Egwyddorion cofiadwy

- Rwy’n gwybod beth yw ystyr y term diogelu
- Rwy’n gwybod beth i gadw llygad arno
- Rwy’n gwybod pwy ddylai gael gwybod.

Safonau hyfforddi, dysgu a datblygu (grŵp A)

a) Sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu pobl rhag cael eu cam-drin, eu niweidio a'u hesgeuluso.

1. Beth mae’r term 'diogelu’ yn ei olygu.
2. Y prif gategorïau o gamdriniaeth ac esgeulustod.
3. Arwyddion a symptomau cyffredin sy'n gysylltiedig â cham-drin, niwed ac esgeulustod.
4. Meysydd risg[1] sefyllfaol eraill a allai arwain at gam-drin, niweidio ac esgeulustod.
5. Trosolwg o'r fframwaith cyfreithiol a'r hyn y mae'n ei olygu'n ymarferol, gan gynnwys ymwybyddiaeth o Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a

Llesiant (Cymru) 2014 a'u polisi asiantaethol eu hunain.
6. Sut mae'r fframwaith cyfreithiol yn cefnogi hawliau pobl i gael eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin, eu niweidio a'u hesgeuluso.
7. Rolau asiantaethau amrywiol ac eraill sy'n ymwneud â diogelu lles pobl, yng nghyd-destun y lleoliad.
8. Rôl a chyfrifoldebau ymarferwyr ym maes diogelu.
9. Cynnal hawliau pobl, teuluoedd a gofalwyr.

b) Y ffactorau, y sefyllfaoedd a'r camau gweithredu a allai arwain neu gyfrannu at achosion o gam-drin, niweidio neu esgeulustod.

1. Pam y gall rhai pobl fod mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin, eu niweidio neu eu hesgeuluso.
2. Sut y gall sefyllfa rhywun gynyddu'r risg o gael eu cam-drin, eu niweidio neu eu hesgeuluso, er enghraifft, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.
3. Pam nad yw camdriniaeth, o bosibl, yn cael eu datgelu gan bobl, teulu, ffrindiau neu ymarferwyr, yn cynnwys gwirfoddolwyr.

c) Sut i ymateb a chofnodi a rhoi gwybod am bryderon neu honiadau sy'n ymwneud â diogelu.

1. Pam ei bod yn bwysig rhoi gwybod am unrhyw bryderon am achosion posibl o gam-drin, niweidio neu esgeuluso ac yn ddyletswydd ar bawb i wneud hyn.
2. Sut a phryd y dylid rhoi gwybod am bryderon – dylech ddeall proses neu fecanweithiau adrodd eich asiantaeth neu'ch cyflogwr.
3. Beth yw'r pethau y dylid rhoi gwybod amdanynt a'u cofnodi.
4. Sut i ymateb i amheuon, datgeliadau neu honiadau o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod.
5. Camau i'w cymryd a chamau i'w hosgoi os oes amheuon, datgeliadau neu honiadau o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod.
6. Ffiniau cyfrinachedd[2] mewn perthynas â diogelu a gwybodaeth y mae'n rhaid ei rhannu.

7. Pethau sy’n gallu rhwystro rhywun rhag rhoi gwybod neu godi pryderon.
8. Camau i'w cymryd pan fo pryderon parhaus am gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod neu os nad yw pryderon wedi cael sylw ar ôl rhoi gwybod amdanynt.
9. Beth mae'r term 'chwythu'r chwiban' yn ei olygu.

[1] Gall meysydd risg gynnwys e-ddiogelwch a cham-drin domestig.

[2] Caldicott Principles: Eight principles to make sure people's information is kept confidential and used appropriately. National Data Guardian, 2020

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Safonau diogelu grŵp B

Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol - grŵp B.

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 Hydref 2022

Diweddariad olaf: 2 Hydref 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol/safonau-diogelu-grwp-b am y fersiwn diweddaraf.

Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol - grŵp B.

Pwyntiau pwysig i’w nodi

1. Mae’r safonau hyn yn cyfeirio at rai rolau enghreifftiol, ond nid ydynt yn nodi’r holl rolau a chyfrifoldebau ar draws y sector. Felly, dyletswydd sefydliadau yw nodi o fewn eu gweithlu eu hunain, pa rolau sy’n gweddu i grwpiau penodol.

   Wrth bennu hyfforddiant priodol ar gyfer pob aelod staff, bydd angen i’r sefydliad sicrhau bod yr aelod staff wedi ei osod yn y grŵp sy’n briodol ar ei gyfer.

   Os yw sefydliadau neu reolwyr yn ansicr pa grŵp yw’r un priodol, ac os yw’r rôl yn perthyn i fwy nag un grŵp, disgwylir i’r ymarferydd gael ei hyfforddi yn y grŵp uwch. Er enghraifft, os yw gweithiwr yn perthyn i grŵp B ac C, dylid ei hyfforddi ar lefel grŵp C.
2. Drwy’r safonau i gyd, disgwylir i bob ymarferydd sy’n cychwyn mewn rôl newydd o grŵp B ymlaen fod wedi cwblhau hyfforddiant, dysgu a datblygu yn y grwpiau blaenorol cyn cychwyn y rôl.

   Fel arall, dylid ei gefnogi i gwblhau’r hyfforddiant, dysgu a datblygu yn ystod chwe mis cyntaf ei gyfnod sefydlu.

Rolau a chyfrifoldebau

Ymarferwyr grŵp B yw'r rhai sy'n treulio amser gyda phobl mewn lleoliad grŵp neu ar sail un i un. Bydd ganddynt gyfrifoldeb penodol mewn perthynas â'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw a bydd angen lefel uwch o wybodaeth arnynt

na'r rhai yng ngrŵp A oherwydd eu hymwneud uniongyrchol â phobl. Efallai y bydd gan y bobl y maent yn gweithio gyda nhw bryderon diogelu neu efallai ddim.

Os bydd yna bryderon am ddiogelu, bydd llinell glir yn y sefydliad ar gyfer rhoi gwybod a bydd yr ymarferydd yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb i roi gwybod am bryderon, yn fewnol ac i'r gwasanaethau cymdeithasol yn uniongyrchol.

Ni fydd gan yr ymarferwyr hyn rôl statudol mewn perthynas â'r broses ddiogelu ac ni fyddant yn eistedd ar grwpiau craidd nac yn rhan o gynllunio diogelu. Ni fyddai disgwyl iddynt roi cyngor ar ddiogelu i eraill.

Wrth edrych ar y safonau ar draws y grwpiau, efallai y bydd yn edrych fel eu bod yn cael eu hailadrodd. Fodd bynnag, bydd angen i ymarferwyr mewn gwahanol grwpiau gael gwybodaeth a dealltwriaeth fanylach oherwydd y cyfrifoldebau sydd ganddynt. Felly, bydd yr hyfforddiant, dysgu a datblygu a ddarperir ar gyfer pob grŵp yn archwilio'r un pynciau yn fanylach. Bydd y **fframwaith hyfforddiant, dysgu a datblygu** yn helpu i ddangos hyn.

Bydd gan yr ymarferwyr yng ngrŵp B **fwy o gyfrifoldeb** dros ddiogelu felly pennir y safonau ar gyfer ymarferwyr grŵp B fel bod yr hyfforddiant, dysgu a datblygu yn eu helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o faterion diogelu. Er enghraifft, bydd angen i ymarferwyr grŵp B ddangos eu bod yn **deall** y gyfraith **a gweithredu'r gyfraith** yn eu gwaith bob dydd.

Egwyddorion cofiadwy

- Rwyf yn rhan allweddol o'r broses ddiogelu
- Rwy'n gwybod pryd, sut ac i bwy y dylwn roi gwybod
- Byddaf yn sicrhau bod llais yr unigolyn yn cael ei glywed.

Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu (grŵp B)

Bydd angen i bawb yn y grŵp hwn wybod popeth yng ngrŵp A hefyd.

a) Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, a chodau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol mewn perthynas â diogelu.

1. Categorïau cam-drin ac esgeulustod fel y'u diffinnir yn Adran 197 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
2. Arwyddion a symptomau cyffredin sy'n gysylltiedig â cham-drin, niweidio ac esgeulustod.
3. Meysydd risg sefyllfaol eraill a allai arwain at gam-drin, niweidio ac esgeulustod.
4. Trosolwg o'r fframwaith cyfreithiol a'r goblygiadau ymarferol, i gynnwys polisïau ac egwyddorion lleol a chenedlaethol, y Ddeddf Plant, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, deddfwriaeth Cam-drin Domestig ac egwyddorion (pobl hŷn) a chonfensiynau (plant) y Cenhedloedd Unedig a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
5. Sut mae'r fframwaith cyfreithiol yn cefnogi hawliau pobl i gael eu hamddiffyn rhag eu cam-drin, eu niweidio ac esgeulustod.
6. Rolau gwahanol asiantaethau ac eraill sy'n ymwneud â diogelu lles pobl, yng nghyd-destun eich lleoliad.
7. Deddfwriaeth[1], canllawiau statudol, polisïau cenedlaethol a chodau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol sy'n gysylltiedig â diogelu pobl – yn oedolion, plant a phobl ifanc – a'r hyn y maent yn ei olygu'n ymarferol.
8. Sut mae fframweithiau deddfwriaethol yn cefnogi hawliau pobl i gael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod.

9. Bod yn agored ac yn onest gyda phobl os bydd pethau'n mynd o chwith[2] neu os oedd ganddynt y potensial i fynd o chwith.

b) Sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu pobl rhag cael eu cam-drin, eu niweidio a'u hesgeuluso.

1. Rolau gwahanol asiantaethau ac eraill sy'n gweithio i ddiogelu lles pobl, yng nghyd-destun eich lleoliad.
2. Rôl a chyfrifoldebau ymarferwyr ym maes diogelu.
3. Rôl eiriolaeth mewn perthynas â diogelu – yn allanol ac mewn perthynas â'ch rôl.
4. Sut i sefydlu perthynas sy'n ennyn ymddiriedaeth pobl, teuluoedd a gofalwyr a chreu perthynas â hwy.
5. Sut i weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/plentyn gan ddilyn egwyddorion diogelu a chynnal hawliau pobl.
6. Sut i alluogi pobl i wneud penderfyniadau am y pethau sy'n bwysig iddyn nhw ac i gadw rheolaeth dros eu bywydau.
7. Sut i hyrwyddo llais pobl bob amser, gan wrando ar eu profiad bywyd.
8. Sut i gefnogi pobl i gydbwyso eu hawliau a'u cyfrifoldebau, gan sicrhau eich bod yn cynnal eich dyletswydd gofal.
9. Sut i hyrwyddo amgylchedd lle gall pobl fynegi ofnau, pryderon a theimladau heb boeni am gael eu gwawdio, eu gwrthod, eu cosbi neu boeni na fydd neb yn eu credu.
10. Sut i wneud pobl yn ymwybodol o'r modd y gallan nhw gadw eu hunain yn ddiogel rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod.
11. Sut i wneud pobl yn ymwybodol o'r peryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio cyfryngau cymdeithasol, y rhyngrwyd a ffonau symudol.
12. Sut i weithio mewn ffyrdd sy'n cadw ymarferwyr a phobl yn ddiogel rhag cael eu cam-drin, eu niweidio neu eu hesgeuluso.
13. Sut i gael gafael ar gefnogaeth a hyfforddiant, dysgu a datblygu er mwyn ystyried a gwella gwybodaeth, sgiliau ac ymarfer ar gyfer diogelu.

14. Gwybod ble i fynd am gyngor a chymorth, os oes angen.

c) Y ffactorau, y sefyllfaoedd a'r camau gweithredu a allai arwain neu gyfrannu at gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod.

1. Pam mae rhai pobl o bosibl mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin, eu niweidio neu eu hesgeuluso.
2. Sut y gall sefyllfa rhywun gynyddu'r risg o gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod, er enghraifft, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.
3. Pam na fydd pobl, teulu, ffrindiau, ymarferwyr a gwirfoddolwyr yn datgelu camdriniaeth o bosibl.
4. Gweithredoedd, ymddygiadau neu sefyllfaoedd sy'n cynyddu'r perygl o gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod.
5. Ymddygiad nodweddiadol cyflawnwyr a'u ffordd o feithrin perthynas amhriodol, gan gynnwys bwlio, rheoli drwy orfodaeth ac ymddygiad rheolaethol.
6. Dysgu o adolygiadau ac adroddiadau ar fethiannau difrifol er mwyn amddiffyn pobl rhag cael eu cam-drin, eu niweidio neu eu hesgeuluso.

ch) Sut i ymateb, cofnodi a rhoi gwybod am bryderon neu honiadau sy'n ymwneud â diogelu.

1. Dylid rhoi gwybod am unrhyw amheuon o gamdriniaeth, niweidio neu esgeulustod posibl ac mae'n ddyletswydd ar bawb i wneud hyn.
2. Sut a phryd y dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon am gamdriniaeth, niweidio neu esgeulustod honedig.
3. Sut i ymateb os oes amheuon neu honiadau o gamdriniaeth, niweidio neu esgeulustod.
4. Camau i'w cymryd pan fo pryderon parhaus am gamdriniaeth, niweidio neu esgeulustod neu os nad yw amheuon wedi cael sylw priodol ar ôl rhoi gwybod amdanynt.

5. Pa bethau y dylid rhoi gwybod amdanynt, a'u cofnodi, pryd y dylai hyn ddigwydd a sut y caiff y wybodaeth hon ei storio.
6. Sut i gofnodi gwybodaeth ysgrifenedig sy'n gywir, yn glir ac yn berthnasol gyda lefel briodol o fanylder.
7. Y gwahaniaeth rhwng ffaith, safbwynt a barn, a pham mae deall hyn yn bwysig wrth gofnodi a rhoi gwybod am wybodaeth.
8. Ffiniau cyfrinachedd mewn perthynas â diogelu a gwybodaeth y mae'n rhaid ei rhannu.
9. Pethau all eich rhwystro rhag rhoi gwybod neu fynegi amheuon a sut i ymateb.
10. Gwybod beth yw ystyr y term 'chwythu'r chwiban' a sut i ddilyn polisi chwythu'r chwiban eich sefydliad.

[1] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Deddf Plant 1989.

[2] Dyletswydd gonestrwydd: Deall yr angen i fod yn atebol am eich gwaith eich hun. Mae hyn yn cynnwys bod yn agored ac yn onest gyda phobl os aiff pethau o chwith, gan gynnwys rhoi esboniad llawn a phrydlon i'r cyflogwr neu'r awdurdod priodol o'r hyn sydd wedi digwydd.

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Safonau diogelu grŵp C

Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol - grŵp C.

Cyhoeddwyd gyntaf: 19 Hydref 2022

Diweddariad olaf: 2 Hydref 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol/safonau-diogelu-grwp-c am y fersiwn diweddaraf.

Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol - grŵp C.

Pwyntiau pwysig i’w nodi

1. Mae’r safonau hyn yn cyfeirio at rai rolau enghreifftiol, ond nid ydynt yn nodi’r holl
   rolau a chyfrifoldebau ar draws y sector. Mae dyletswydd, felly, ar sefydliadau i nodi ymysg eu gweithluoedd eu hunain, pa rolau sy’n gweddu i grwpiau penodol. Wrth bennu hyfforddiant priodol ar gyfer pob aelod staff unigol, bydd angen i’r sefydliad fodloni ei hun pa grŵp y bydd pob aelod staff yn briodol ar ei gyfer. Os yw sefydliadau neu reolwyr yn ansicr pa grŵp yw’r un priodol, ac os yw’r rôl yn perthyn i fwy nag un grŵp, y disgwyl yw y bydd yr ymarferydd yn cael ei hyfforddi i’r grŵp uwch, er enghraifft os yw gweithiwr yn perthyn i grŵp B a C, yna dylid ei hyfforddi ar lefel grŵp C.
2. Drwy’r safonau cyfan, bydd disgwyl i unrhyw ymarferydd sy’n cychwyn mewn rôl
   newydd o grŵp B ymlaen, fod wedi cwblhau hyfforddiant yn y grwpiau blaenorol cyn cychwyn y rôl. Os ddim, dylid ei gefnogi i gwblhau’r hyfforddiant yn ystod chwe mis cyntaf ei gyfnod sefydlu.
3. Yn grwpiau C i E, mae disgwyl y bydd ymarferwyr yn gwneud hyfforddiant cyffredinol a hyfforddiant sy’n benodol i’r rôl. Bydd y rhan cyffredinol yn cynnwys hyfforddiant y bydd angen i bob ymarferydd yn y grwpiau hyn ei gwblhau beth bynnag fo’r rôl neu’r sefydliad. Yn ychwanegol at yr hyfforddiant cyffredinol, fodd bynnag, bydd angen cytuno’n ffurfiol ar yr hyfforddiant sy’n benodol i’r rôl fel rhan o gynllun hyfforddi a datblygu personol yr unigolyn a bydd yn adlewyrchu elfennau penodol ei rôl a’i gyfrifoldebau.

Rolau a chyfrifoldebau

Ymarferwyr grŵp C yw pobl sy’n uniongyrchol gyfrifol am ddiogelu pobl:

- sydd â rôl asesu sy'n gysylltiedig â'r broses ddiogelu **a / neu**
- sy'n gweithredu ar lefel lle gallant roi cyngor ar ddiogelu i'r rhai yng ngrŵp A a grŵp B **a / neu**
- sydd mewn lleoliad y maent yn gweithio ynddo neu'n ei reoli **a / neu**
- y maent yn treulio llawer o amser gyda nhw heb oruchwyliaeth a lle gallai pryderon diogelu godi.

Mae ymarferwyr grŵp C hefyd yn cynnwys person diogelu dynodedig y sefydliad a phobl sy'n cymryd rhan fwy amlwg mewn penderfyniadau diogelu, gan gynnwys rhai sydd â rôl weithredol mewn grwpiau craidd a gweithgareddau cynllunio diogelu.

Gallai ymarferwyr grŵp C o bosibl gyfrannu at asesu, cynllunio, ymyrryd ac adolygu anghenion pobl lle mae pryderon ynghylch diogelu, neu gallent gymryd rhan lawn yn y gwaith hwnnw.

Mae’r **Fframwaith Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol** yn rhoi manylion am hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr grŵp C. Mae’r fframwaith yn cydnabod y gallai fod gan ymarferwyr yn y grŵp hwn gyfrifoldebau diogelu penodol ychwanegol ar gyfer eu rôl. I rai ymarferwyr, gall eu corff rheoleiddio / proffesiynol ddiffinio'r hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer y rôl.

Wrth fwrw golwg ar safonau ar draws y grwpiau i gyd, gallant ymddangos yn ailadroddus. Ond, mae angen i ymarferwyr mewn gwahanol grwpiau gael gwybodaeth a dealltwriaeth fanylach oherwydd y cyfrifoldebau sydd ganddynt. Felly, bydd yr hyfforddiant a ddarperir ar gyfer pob grŵp yn archwilio'r un pynciau yn fanylach. Bydd y **fframwaith dysgu a datblygu** yn helpu i ddangos hyn.

Ar gyfer ymarferwyr grŵp C, mae eu **dyletswyddau diogelu yn fwy** a bydd ganddynt benderfyniadau i'w gwneud ynghylch cadw pobl yn ddiogel a phryd y mae angen iddynt roi prosesau amddiffyn ar waith. Bydd angen i'r ymarferwyr hyn gael yr holl wybodaeth a dealltwriaeth o safonau grwpiau A a B **yn ogystal â** gwybodaeth ychwanegol i sicrhau eu bod yn cyflawni eu rôl yn unol â'r gyfraith. Er enghraifft, bydd ymarferwyr grŵp C yn gallu **deall** y gyfraith **a'i chymhwyso** i'w hymarfer diogelu ac amddiffyn beunyddiol.

Mae hyfforddiant diogelu grŵp C generig y mae'n rhaid i bawb yng ngrŵp C ei wneud.

Bydd angen hyfforddiant ychwanegol sy'n berthnasol i rolau a chyfrifoldebau penodol ymarferwyr ar ôl cwblhau'r hyfforddiant grŵp C generig.

Bydd hyn yn wahanol i ymarferwyr unigol hyd yn oed o fewn asiantaethau a sefydliadau er enghraifft o fewn iechyd bydd angen hyfforddiant, dysgu a datblygu arbenigol ar rai pediatregwyr o fewn grŵp C mewn cynnal archwiliadau meddygol amddiffyn plant ac adrodd arnynt. Bydd yr hyfforddiant, dysgu a datblygu arbenigol hwn yn aml yn cael ei ddiffinio ac yn ofynnol gan gyrff proffesiynol a/neu reoleiddiol a bydd yn cael ei ddiffinio ar lefel genedlaethol neu lefel asiantaeth. Efallai y bydd cytundebau lleol hefyd ar gyfer gofynion hyfforddi, dysgu a datblygu penodol.

Egwyddorion cofiadwy:

- Rwy'n deall fod rhoi llais a rheolaeth i bobl yn rhan hanfodol o'r broses o wneud penderfyniadau – ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn/person
- Rwy'n deall rolau a chyfrifoldebau pawb yn y broses ddiogelu
- Mae gen i'r gallu i wneud penderfyniadau clir a chymesur.

Safonau hyfforddi, dysgu a datblygu (grŵp C)

(Yn cyfateb i Lefel 3 mewn iechyd)

Bydd angen i bawb yn y grŵp hwn wybod popeth yng ngrwpiau A a B.

a) Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a chodau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol mewn perthynas â diogelu.

1. Deddfwriaeth, canllawiau statudol, polisïau cenedlaethol a chodau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol sy'n ymwneud â diogelu pobl – oedolion a phlant a phobl ifanc – a beth mae'r rhain yn ei olygu'n ymarferol. Trowch at y rhestr gyflawn o ddeddfwriaeth sydd ar gael yn adran y cyflwyniad.
2. Gwybodaeth am Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a'i chymhwyso'n ymarferol yn y cyd-destun diogelu (pum egwyddor statudol), lle bo'n berthnasol.
3. Cymhwyso'r prawf galluedd dau gam[1] yn effeithiol, hynny yw, y prawf penodol ar gyfer sut mae unigolyn yn cofio ac yn deall y digwyddiad diogelu, lle bo'n berthnasol.
4. Sut mae cyfreithiau, canllawiau cenedlaethol a lleol, a pholisïau sefydliadol yn effeithio ar arferion diogelu.
5. Sut mae fframweithiau deddfwriaethol yn cefnogi hawl pobl i gael eu diogelu rhag eu cam-drin, eu niweidio a'u hesgeuluso.
6. Rôl gwahanol asiantaethau ac ymarferwyr eraill sy'n ymwneud â diogelu.
7. Bod yn agored ac yn onest gyda phobl os yw pethau'n mynd o chwith[3] neu os gallent fod wedi mynd o chwith.

b) Sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu pobl rhag cael eu cam-drin, eu niweidio a'u hesgeuluso.

1. Rôl a chyfrifoldebau penodol ymarferwyr mewn perthynas â'r broses amddiffyn plant neu amddiffyn oedolion.
2. Y gwahanol fathau o eiriolaeth a sut maent yn berthnasol i'r broses ddiogelu.

3. Meithrin perthynas sy'n hyrwyddo ymddiriedaeth pobl, teuluoedd a gofalwyr, a sicrhau bod cryfderau a risgiau yn cael yr un pwyslais yn y broses ddiogelu.
4. Hyrwyddo llais a rheolaeth y person yn amlwg a chlir ym mhob un o'r camau.
5. Caniatáu i bobl wneud penderfyniadau ynghylch pethau sy'n bwysig iddyn nhw a chadw rheolaeth ar eu bywydau cyn belled ag y bo modd, gan gynnwys esbonio penderfyniadau nad ydynt yn eu hoffi neu nad ydynt yn cytuno â nhw.
6. Cynnal hawliau pobl, teuluoedd a gofalwyr, gan sicrhau eich bod yn cyflawni eich dyletswydd gofal, a dangos dealltwriaeth o'r pwyslais ychwanegol a roddir ar rai hawliau yn fwy nag eraill yn y broses ddiogelu.
7. Sut i gefnogi pobl i gydbwyso eu hawliau a'u cyfrifoldebau gan sicrhau eich bod yn cynnal eich dyletswydd gofal, a sicrhau nad yw arferion gwrth-risg yn cyfyngu ar allu person i fwynhau bywyd.
8. Galluogi pobl i deimlo'n ddiogel a hyderus wrth rannu eu pryderon a'u teimladau drwy ddarparu lle diogel a negeseuon cyson.
9. Codi ymwybyddiaeth person o sut i gadw ei hun yn ddiogel rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod drwy roi gwybodaeth berthnasol a phenodol iddo.
10. Codi ymwybyddiaeth person o'r peryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio cyfryngau cymdeithasol, y rhyngrwyd a ffonau symudol, a defnyddio ffyrdd priodol o esbonio'r risgiau hynny.
11. Gweithio mewn ffyrdd sy'n eich cadw chi ac eraill yn ddiogel rhag cael eich cam-drin, eich niweidio neu eich esgeuluso, ac wrth weithio ar eich pen eich hun.
12. Defnyddio rhwydweithiau goruchwylio a chefnogi wrth ystyried eich arferion diogelu, eich sgiliau a'ch cymhwysedd, a'ch dealltwriaeth o gryfderau a risgiau pob unigolyn / teulu rydych chi'n gweithio gyda nhw, gan gynnwys eu profiad byw bob dydd.
13. Gwybod ble i fynd am gyngor a chymorth os oes angen, gan gynnwys yn uniongyrchol gan y gwasanaethau cymdeithasol.

c) Y ffactorau, y sefyllfaoedd a'r gweithredoedd a allai arwain neu gyfrannu at gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod.

1. Pam y gallai rhai pobl fod mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin, eu niweidio neu eu hesgeuluso.
2. Sut y gall sefyllfa person gynyddu'r risg o gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod, er enghraifft, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.
3. Pam nad yw pobl o reidrwydd yn dweud wrth eraill eu bod wedi gweld neu brofi camdriniaeth, niwed neu esgeulustod.
4. Gweithredoedd, ymddygiadau neu sefyllfaoedd sy'n cynyddu'r risg o gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod.
5. Gallu person a'i ddealltwriaeth o'r risg o gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod
6. Effeithiau ymddygiad rhiant neu ofalwr a ffactorau teuluol ar oedolion a phlant sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin, eu niweidio neu eu hesgeuluso[2] .
7. Nodweddion ymddygiad y cyflawnwr a meithrin perthynas amhriodol yn cynnwys bwlio, rheoli trwy orfodaeth ac ymddygiad rheolaethol.
8. Dysgu o adolygiadau ymarfer ac adroddiadau ar fethiannau difrifol i ddiogelu pobl rhag niwed, camdriniaeth neu esgeulustod.

ch) Sut i ymateb, cofnodi a rhoi gwybod am bryderon neu honiadau sy'n ymwneud â diogelu.

1. Rhoi adroddiad cywir a hyderus am unrhyw bryderon am gam-drin, niwed neu esgeulustod posibl a dyletswydd pawb i wneud hyn.
2. Cydnabod sut a phryd y dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon am gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod honedig a chynghori eraill fel sy'n briodol.
3. Camau i'w cymryd a chamau i'w hosgoi os oes amheuon, datgeliadau neu honiadau o gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod.

4. Gallu uwchgyfeirio a gweithredu pan fo pryderon parhaus am niwed, camdriniaeth neu esgeulustod, lle nad yw pryderon wedi cael sylw ar ôl rhoi gwybod amdanynt.
5. Gallu adrodd a chofnodi'n effeithiol a gwybod pryd y dylai hyn ddigwydd a sut mae gwybodaeth yn cael ei storio.
6. Sut i gofnodi gwybodaeth ysgrifenedig sy'n gywir, yn glir ac yn berthnasol gyda lefel briodol o fanylder.
7. Y gwahaniaeth rhwng ffaith, safbwynt a barn, a pham mae deall hyn yn bwysig wrth gofnodi ac wrth adrodd gwybodaeth.
8. Deall ffiniau cyfrinachedd mewn perthynas â diogelu.
9. Deall pwysigrwydd rhannu gwybodaeth yn gyfreithlon ac yn gymesur.
10. Gwybod beth yw ystyr y term 'chwythu'r chwiban' a sut i ddefnyddio polisi 'chwythu'r chwiban' eich sefydliad yn effeithiol.

Hyrwyddo’r gwaith o ddiogelu pobl
d) Hyrwyddo ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn / person.

1. Cefnogi diwylliant cynhwysol ac yn seiliedig ar gryfderau.
2. Cydnabod effaith cefndir diwylliannol a chrefyddol teulu wrth asesu risg a rheoli pryderon.
3. Gweithio gyda'r person, y rhai sy'n agos ato ac ymarferwyr perthnasol i ddatblygu cynllun amddiffyn.
4. Asesu gallu'r person i wneud penderfyniadau am risg, gan gydbwyso ei hawliau a'i gyfrifoldebau.
5. Cynnal, cyfrannu at a chefnogi asesiadau neu ymholiadau rhyngasiantaethol, gan gynnwys casglu barn y person am berygl a rheoli risg gan atgyfeirio at asiantaethau eraill pan fo'n briodol.
6. Dadansoddi canlyniad ymchwiliad, maint y risg i’r unigolyn, i’w rwydwaith agos neu estynedig, neu i’r gymuned[3].
7. Trafod y sefyllfa gyda'r person neu'r plentyn, gan gofnodi ei ddymuniadau a'i farn.

8. Cyfrannu at a / neu gydlynu cynlluniau amddiffyn, datrys ac adfer mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
9. Gwneud trefniadau pontio diogel ar gyfnodau allweddol bywyd pan fyddwch yn ystyried canlyniadau cadarnhaol gyda phobl[4].
10. Dilyn ac adolygu gweithdrefnau ar gyfer mynd ar drywydd plant a phobl ifanc neu oedolion ‘na ddygir’ i apwyntiadau neu na chânt eu casglu o leoliadau, a / neu na chaniateir iddynt gael mynediad i ymweliadau cartref, yn rhagweithiol.

dd) Cymryd rhan mewn prosesau diogelu.

1. Cymryd rhan mewn adolygiadau ymarfer plant neu oedolion, adolygiadau lladdiadau arfau domestig / iechyd meddwl / ymosodol, yn y dyfodol, i'w dwyn ymlaen fel yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl[5], ac unrhyw adolygiadau rheoli achos, pan fo angen.
2. Cyflwyno gwybodaeth yn briodol mewn cyfarfodydd ac mewn adroddiadau ysgrifenedig yn unol â'r gofynion cyfreithiol.
3. Deall prosesau ar gyfer nodi a yw oedolyn, plentyn neu berson ifanc yn hysbys i weithwyr proffesiynol mewn gofal cymdeithasol ac asiantaethau eraill.
4. Deall y fframweithiau a’r prosesau asesu sydd gan eich sefydliad sy'n ategu ymarfer seiliedig ar gryfderau.
5. Deall a chyfrannu at fesur effeithiolrwydd ac ansawdd gwasanaethau.
6. Gwybod sut i reoli a monitro honiadau o gam-drin yn erbyn ymarferwyr mewn sefyllfa o ymddiriedaeth, gan gynnwys uwchgyfeirio a cheisio cymorth.

e) Cefnogi eraill i ddiogelu pobl (ar gyfer y rhai sydd â chyfrifoldeb goruchwylio).

1. Cefnogi eraill i gyflawni eu dyletswyddau diogelu.
2. Gwybod pryd i ofyn am a chynnig cefnogaeth mewn amgylchedd gwaith cadarnhaol.

3. Deall yr effaith bersonol bosibl a gaiff gwaith diogelu neu amddiffyn plant arnoch chi eich hun ac ar eraill.
4. Creu a chefnogi amgylchedd gwaith sy'n caniatáu i bobl ddatblygu sgiliau a gwybodaeth ym maes diogelu.
5. Goruchwylio a chefnogi staff a chymheiriaid eraill.
6. Cynghori eraill ynghylch rhannu gwybodaeth yn briodol.

f) Gweithio gydag eraill i ddiogelu pobl.

1. Gweithio gydag eraill i leihau'r risg o gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod yn rhagweithiol.
2. Nodi risgiau a chyfrannu at asesiadau risg.
3. Gweithio gyda phawb sy'n rhan o'r sefyllfa pan fo pryderon diogelu, a defnyddio barn ystyriol i reoli risgiau a hyrwyddo diogelwch.
4. Cydnabod y pŵer sy'n dod o weithio gyda phobl a gofalwyr a'i ddefnyddio'n sensitif ac yn gyfrifol.
5. Gwybod pryd i gysylltu ag asiantaethau eraill ynghylch asesu a rheoli cynlluniau diogelu.
6. Tynnu sylw at anawsterau o ran adnoddau neu anawsterau gweithredol a allai fod yn rhwystr i ddarparu gofal a chymorth diogel.
7. Gallu cymryd rhan a / neu chadeirio cyfarfodydd adolygu cymheiriaid a chyfarfodydd amlddisgyblaethol yn ôl yr angen.
8. Deall pryd mae angen cymorth a help mewn sefyllfaoedd sydd angen mwy o arbenigedd a phrofiad.

ff) Cynnal atebolrwydd proffesiynol.

1. Deall pwrpas a phroses Adolygiadau Ymarfer Plant neu Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Adolygiadau Dynladdiad Domestig, Adolygiadau Dynladdiad Iechyd Meddwl ac Adolygiadau Dynladdiad Arfau Sarhaus (Bydd yr adolygiadau hyn i gyd yn dod yn rhan o'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl)

2. Cynnal adolygiadau rheolaidd wedi'u dogfennu o'ch arferion diogelu chi (a/neu arferion diogelu eich tîm).
3. Cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o archwiliadau, adolygiadau ymarfer, adolygiadau dynladdiad domestig ac adolygiadau rheoli achos i wella ymarfer.
4. Deall rhannu gwybodaeth, cyfrinachedd a chydsyniad.
5. Bod yn ymwybodol o rôl a chylch gwaith y byrddau diogelu rhanbarthol.
6. Deall y cysylltiadau rhwng diogelu a systemau cyfiawnder troseddol.
7. Deall rôl gwahanol fathau o dystion.
8. Deall egwyddorion goruchwylio diogelu a chymorth gan gymheiriaid effeithiol.
9. Deall fframweithiau cenedlaethol a lleol ar gyfer asesu risg a niwed.
10. Cadw eich ymwybyddiaeth o'r ystod o adnoddau a gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi teuluoedd yn gyfredol.

g) Safonau penodol i ymarferwyr sy'n darparu gwasanaethau sylweddol i blant a phobl ifanc.

1. Deall y prosesau a'r ddeddfwriaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys gwasanaethau ar gyfer plant â phrofiad o ofal, fel sy'n briodol i'ch rôl.
2. Deall y defnydd o warchodwyr[6].
3. Deall y ffordd y rheolir proses Ymateb Gweithdrefnol Iechyd Cyhoeddus Cymru i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod *(*PRUDIC[7]) ar gyfer marwolaeth annisgwyl plentyn neu berson ifanc.
4. Deall salwch ffug neu salwch wedi'i achosi gan eraill.
5. Cydsyniad a chyfrinachedd mewn perthynas â phobl ifanc o dan 16 oed, gan gynnwys cysyniadau Cymhwysedd Gillick a Chanllawiau Fraser.

ng) Safonau sy'n benodol i ymarferwyr sy'n darparu gwasanaethau sylweddol i oedolion.

1. Esbonio sut mae rheoli marwolaeth oedolyn mewn cyd-destun diogelu.

2. Deall egwyddorion cydsyniad a chyfrinachedd mewn perthynas ag oedolion.
3. Cymhwyso'r prawf galluedd dau gam, sef y prawf penodol ar gyfer sut mae’r person yn cofio ac yn deall y digwyddiad diogelu.

[1] Y Ddeddf Galluedd Meddyliol (MCA) Mae'n berthnasol i bobl 16 oed a throsodd

[2] Gall ymddygiad rhieni neu ofalwyr a ffactorau teuluol gynnwys camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig, straen a chydymffurfiaeth gelwyddog.

[3] Ystyrir graddau'r risg i'r gymuned o ran buddiannau diogelwch y cyhoedd.

[4] Mae pontio yn berthnasol i unrhyw gyfnod ym mywyd person lle mae newidiadau'n digwydd a allai effeithio ar ei anghenion gofal a chymorth. Efallai y bydd ystyriaethau diogelu ychwanegol hefyd.

[5] Mae'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru a’r nod yw y bydd yn disodli'r holl adolygiadau cyfredol.

[6] Hebryngwr: Gweler yr Eirfa.

[7] Mae'r PRUDiC yn berthnasol i bob marwolaeth annisgwyl mewn plant o'u genedigaeth tan eu pen-blwydd yn 18 oed, boed hynny o achosion naturiol, annaturiol, hysbys neu anhysbys, gartref, yn yr ysbyty neu yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys gwrthdrawiadau traffig ffordd, hunanladdiadau ymddangosiadol a llofruddiaethau. Nid yw hyn yn cynnwys marw-enedigaethau a marwolaeth babanod cyn-hyfyw a anwyd cyn 24 wythnos. *Ymateb Gweithdrefnol Iechyd Cyhoeddus Cymru i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod (PRUDiC)*

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Safonau diogelu grŵp D

Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol - grŵp D.

Cyhoeddwyd gyntaf: 20 Hydref 2022

Diweddariad olaf: 2 Hydref 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol/safonau-diogelu-grwp-d am y fersiwn diweddaraf.

Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu cenedlaethol - grŵp D.

Pwyntiau pwysig i’w nodi

1. Mae’r safonau hyn yn cyfeirio at rai rolau enghreifftiol, ond nid ydynt yn nodi’r holl rolau a chyfrifoldebau ar draws y sector. Felly, dyletswydd sefydliadau yw nodi
   o fewn eu gweithlu eu hunain, pa rolau sy’n gweddu i grwpiau penodol. Wrth bennu hyfforddiant priodol ar gyfer pob aelod staff, bydd angen i’r sefydliad sicrhau bod yr aelod staff wedi ei osod yn y grŵp sy’n briodol ar ei gyfer. Os yw
   sefydliadau neu reolwyr yn ansicr pa grŵp yw’r un priodol, ac os yw’r rôl yn perthyn i fwy nag un grŵp, disgwylir i’r ymarferydd gael ei hyfforddi yn y grŵp uwch, er enghraifft os yw gweithiwr yn perthyn i grŵp B ac C, dylid ei hyfforddi ar lefel grŵp C
2. Drwy’r safonau i gyd, disgwylir i bob ymarferydd sy’n cychwyn mewn rôl newydd o grŵp B ymlaen fod wedi cwblhau hyfforddiant yn y grwpiau blaenorol cyn cychwyn y rôl. Fel arall, dylid ei gefnogi i gwblhau’r hyfforddiant yn ystod chwe mis cyntaf ei gyfnod sefydlu.
3. Yn y grwpiau C i E, disgwylir i ymarferwyr wneud hyfforddiant cyffredinol a hyfforddiant sy’n benodol i’r rôl. Bydd yr adran gyffredinol yn cynnwys hyfforddiant y dylai pob ymarferydd yn y grwpiau hyn ei gwblhau beth bynnag yw eu rôl neu’r sefydliad. Yn ogystal â’r hyfforddiant cyffredinol, fodd bynnag, bydd angen cytuno’n ffurfiol pa hyfforddiant sy’n benodol i’r rôl fel rhan o gynllun hyfforddi a datblygu personol yr unigolyn a bydd yn adlewyrchu elfennau penodol o’i rôl a’i gyfrifoldebau.

Rolau a chyfrifoldebau

Ymarferwyr grŵp D yw'r rhai sy'n gweithredu ar lefel uwch yn y broses ddiogelu. Maent yn rhoi cyngor, arweiniad a goruchwyliaeth (os yw'n berthnasol) i ymarferwyr grŵp C. Gallant wneud penderfyniadau lefel uwch, megis gwneud cais am orchmynion llys.

Byddai ymarferwyr grŵp D:

- â lefel uchel o wybodaeth ac arbenigedd yn eu maes mewn perthynas â diogelu
- yn cyfrannu at adolygiadau diogelu ac yn eu cadeirio pan fo angen
- yn gallu cynghori asiantaethau partner ar faterion diogelu a deall pwysigrwydd gwaith amlasiantaethol
- yn gallu cyfiawnhau eu penderfyniadau gan ddefnyddio deddfwriaeth, proses a gweithdrefnau
- yn ymwybodol o bwysigrwydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn / person ac effaith gadarnhaol hynny ar y broses ddiogelu
- yn sicrhau bod llais a rheolaeth yr unigolyn yn cael eu clywed yn y broses o wneud penderfyniadau, lle bo hynny'n bosibl, a byddai'n sicrhau bod ymarferwyr grŵp C yn eu maes gwasanaeth yn gweithio fel hyn.

Mae ymarferwyr grŵp D yn aml yn meddu ar rolau diogelu arbenigol, naill ai yn ogystal â phrif rôl neu fel ymarferydd diogelu arbenigol. Byddant yn **rhoi cyngor a chymorth** i gydweithwyr o fewn a'r tu allan i'w tîm a'u sefydliad. Bydd angen gwybodaeth a dealltwriaeth arnynt o'r safonau ar gyfer grwpiau A i C a bydd ganddynt **brofiad a gwybodaeth** o weithio mewn sefyllfaoedd mwy cymhleth hefyd. Er enghraifft, bydd gan ymarferwyr grŵp D ddealltwriaeth drylwyr o gyfraith diogelu ac amddiffyn. Byddant hefyd yn cefnogi cydweithwyr i gymhwyso'r gyfraith i'w hymarfer wrth wneud penderfyniadau ynghylch diogelwch unigolyn.

Egwyddorion cofiadwy:

- Byddaf yn arwain agenda ddiogelu'r sefydliad
- Byddaf yn sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed ar bob cam o'r broses
- Byddaf yn defnyddio fy ngwybodaeth a'm harbenigedd i wella arferion diogelu.

Safonau hyfforddi, dysgu a datblygu (grŵp D)

Bydd angen i bob aelod o Grŵp D hefyd wybod popeth yng ngrwpiau A i C.

a) Sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu pobl rhag cael eu cam-drin, eu niweidio a'u hesgeuluso.

1. Deall rôl a chyfrifoldebau penodol ymarferwyr mewn perthynas â'r plentyn neu'r oedolyn sy'n wynebu risg pan fo angen uwchgyfeirio.
2. Deall y gwahanol fathau o eiriolaeth a sut maent yn berthnasol i'r broses ddiogelu a'r penderfyniadau sydd eu hangen ar y lefel hon.
3. Deall yr holl ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i ddiogelu fel y mae wedi'i nodi yn y cyflwyniad i'r Safonau.
4. Sicrhau bod diwylliant cefnogol ar gyfer meithrin perthynas sy'n creu ymddiriedaeth gyda phobl, teuluoedd a gofalwyr a sicrhau bod cryfderau a risgiau yn cael yr un pwyslais yn y broses ddiogelu.
5. Sicrhau bod llais a rheolaeth yr unigolyn yn amlwg ar bob cam o'r broses.
6. Sicrhau bod eich gweithlu'n cael ei annog i alluogi pobl i wneud penderfyniadau am y pethau sy'n bwysig iddyn nhw, ac yn rheoli eu bywyd cyn belled ag y bo modd, gan gynnwys esbonio penderfyniadau nad ydynt yn eu hoffi neu nad ydynt yn cytuno â nhw.

Hyrwyddo'r gwaith o ddiogelu pobl

b) Hyrwyddo ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn / person.

1. Bod yn gyfrifol am hyrwyddo diwylliant cynhwysol sy’n seiliedig ar gryfderau.
2. Sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi i gydnabod effaith cefndir ethnig, diwylliannol a chrefyddol y teulu wrth asesu risg a rheoli pryderon.
3. Sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi i asesu gallu pobl i wneud penderfyniadau am risg, gan gydbwyso eu hawliau a'u cyfrifoldebau.
4. Sicrhau bod eich gweithlu'n cael ei gefnogi i gynnal, cyfrannu at a chefnogi asesiadau neu ymholiadau rhyngasiantaethol, gan gynnwys cael barn yr unigolyn ar risg a rheoli risg, ac atgyfeirio at asiantaethau eraill pan fo'n briodol.

c) Cymryd rhan mewn prosesau diogelu.

1. Ystyried fframweithiau a phrosesau asesu amlasiantaethol eraill sy'n sail i ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
2. Arwain dealltwriaeth a chyfraniad eich sefydliad wrth fesur effeithiolrwydd ac ansawdd gwasanaethau.
3. Cyfrannu at neu arwain ar ddatblygu a diweddaru polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau diogelu mewnol a rhanbarthol.
4. Sicrhau bod gweithdrefnau cywir ar waith a chynghori eraill am yr angen i rannu gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth.
5. Deall y broses atgyfeirio a'r llwybrau ar bob lefel.

ch) Cefnogi eraill i ddiogelu pobl.

1. Sicrhau bod eich rheolwyr a'ch partneriaid yn cael eu cefnogi i helpu eraill i gyflawni eu dyletswyddau diogelu.
2. Sicrhau eich bod yn hyrwyddo amgylchedd cefnogol a bod eich staff yn gwybod pryd i gynnig a gofyn am gymorth.
3. Sicrhau bod y gweithlu'n ymwybodol o’r effaith emosiynol y gall diogelu ei achosi, a ble a phryd i ofyn am gymorth.
4. Sicrhau bod eich gweithlu'n gwybod sut i reoli a monitro pan wneir honiadau o gamdriniaeth yn erbyn ymarferwyr sydd mewn sefyllfa o ymddiriedaeth,

gan gynnwys uwchgyfeirio a gofyn am gymorth.
5. Staff cymorth i allu cyflwyno gwybodaeth yn briodol mewn cyfarfodydd ac mewn adroddiadau ysgrifenedig, yn unol â'r gofynion cyfreithiol.
6. Creu a chefnogi amgylchedd gwaith sy'n caniatáu i bobl ddatblygu sgiliau a gwybodaeth ym maes diogelu.
7. Cwblhau neu gyflawni goruchwyliaeth ar ymarferwyr grŵp C a chefnogi staff a chymheiriaid eraill.
8. Sicrhau bod eich gweithlu'n deall y prosesau ar gyfer nodi a yw oedolyn, plentyn neu berson ifanc yn hysbys i weithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol ac asiantaethau eraill.

d) Gweithio gydag eraill i ddiogelu pobl.

1. Nodi a chyfrannu at benderfyniadau sy'n trafod pobl risg uchel, fel Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA).
2. Pan fo pryderon diogelu, gweithio gyda chydweithwyr ac asiantaethau eraill i ddiogelu oedolion a phlant sydd mewn perygl.
3. Sicrhau bod eich rheolwyr ac ymarferwyr grŵp C yn gwybod pryd i gysylltu ag asiantaethau eraill ynghylch asesu a rheoli cynlluniau diogelu.
4. Gweithio i ddatrys ac uwchgyfeirio anawsterau o ran adnoddau neu wasanaethau a allai effeithio ar ddarparu cefnogaeth a gofal diogel.
5. Ymdrin ag ymateb annigonol gan sefydliadau neu asiantaethau.
6. Gallu uwchgyfeirio materion drwy'r protocolau datrys anghydfodau pan fo angen.
7. Cymryd rhan mewn cyfarfodydd adolygu gan gymheiriaid a chyfarfodydd amlddisgyblaethol, a'u cadeirio, yn ôl yr angen.
8. Gallu cael cefnogaeth a help mewn sefyllfaoedd pan fo angen mwy o arbenigedd a phrofiad.
9. Gallu cynghori cydweithwyr am ganllawiau, polisïau a gweithdrefnau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cymeradwy.
10. Helpu gyda chyfleoedd dysgu a darparu diweddariadau.

11. Cydymffurfio â'r ddyletswydd i gydweithredu[1] (os yw'n berthnasol).

dd) Cynnal atebolrwydd proffesiynol.

1. Deall diben a phroses cadeirio adolygiadau ymarfer plant neu oedolion, adolygiadau dynladdiad ac Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (SUSR).
2. Dadansoddi adolygiadau rheolaidd wedi'u dogfennu o'ch arferion diogelu eich hun (a / neu eich tîm).
3. Ymgorffori egwyddorion goruchwylio diogelu effeithiol a chymorth gan gymheiriaid.
4. Dylanwadu ar fframweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer asesu risg a niwed.
5. Arwain ar gymhwyso gwerthoedd ac egwyddorion craidd diogelu ar draws y sefydliad.

[1] Dyletswydd i gydweithredu: Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Safonau diogelu grŵp E

Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol - grŵp E.

Cyhoeddwyd gyntaf: 20 Hydref 2022

Diweddariad olaf: 2 Hydref 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol/safonau-diogelu-grwp-e am y fersiwn diweddaraf.

Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol - grŵp E.

Pwyntiau pwysig i’w nodi

1. Mae’r safonau hyn yn cyfeirio at rai rolau enghreifftiol, ond nid ydynt yn nodi’r holl rolau a chyfrifoldebau ar draws y sector. Felly, dyletswydd sefydliadau yw nodi
   o fewn eu gweithlu eu hunain, pa rolau sy’n gweddu i grwpiau penodol. Wrth bennu hyfforddiant priodol ar gyfer pob aelod staff, bydd angen i’r sefydliad sicrhau bod yr aelod staff wedi ei osod yn y grŵp sy’n briodol ar ei gyfer. Os yw
   sefydliadau neu reolwyr yn ansicr pa grŵp yw’r un priodol, ac os yw’r rôl yn perthyn i fwy nag un grŵp, disgwylir i’r ymarferydd gael ei hyfforddi yn y grŵp uwch, er enghraifft os yw gweithiwr yn perthyn i grŵp B ac C, dylid ei hyfforddi ar lefel grŵp C.
2. Drwy’r safonau i gyd, disgwylir i bob ymarferydd sy’n cychwyn mewn rôl newydd o grŵp B ymlaen fod wedi cwblhau hyfforddiant yn y grwpiau blaenorol cyn cychwyn y rôl. Fel arall, dylid ei gefnogi i gwblhau’r hyfforddiant yn ystod chwe mis cyntaf ei gyfnod sefydlu.
3. Yn y grwpiau C i E, disgwylir i ymarferwyr wneud hyfforddiant cyffredinol a hyfforddiant sy’n benodol i’r rôl. Bydd yr adran gyffredinol yn cynnwys hyfforddiant y dylai pob ymarferydd yn y grwpiau hyn ei gwblhau beth bynnag yw eu rôl neu’r sefydliad. Yn ogystal â’r hyfforddiant cyffredinol, fodd bynnag, bydd angen cytuno’n ffurfiol pa hyfforddiant sy’n benodol i’r rôl fel rhan o gynllun hyfforddi a datblygu personol yr unigolyn a bydd yn adlewyrchu elfennau penodol o’i rôl a’i gyfrifoldebau.

Rolau a chyfrifoldebau:

Rolau grŵp E yw'r rhai sydd â'r 'penderfyniad terfynol neu'r gair olaf' am benderfyniadau diogelu yn ystod y broses ddiogelu. Gallant roi cyngor ar sefyllfaoedd cymhleth, lefel uchel a chael y gair olaf mewn unrhyw benderfyniadau diogelu sydd angen eu gwneud.

Mae rhai penderfyniadau na ellir eu gwneud yn y broses ddiogelu o dan y lefel hon. Mae'r rhain yn cynnwys y lefelau uwch o becynnau gofal a chymorth (lleoliadau) sydd eu hangen weithiau oherwydd pryderon diogelu. Efallai na fydd gan rai asiantaethau bobl sy'n gweithredu ar y lefel hon oherwydd y lefel uchel o arbenigedd, gwybodaeth a phwerau gwneud penderfyniadau – sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r broses ddiogelu – sydd eu hangen.

Byddai'r bobl sy'n gweithredu ar y lefel hon hefyd yn cynghori asiantaethau eraill ar eu maes arbenigedd a byddent yn gallu arwain gwaith diogelu ar lefel rhanbarth, Cymru a'r DU yn y maes hwn. Byddent yn ymwneud fel mater o drefn â grwpiau rhanbarthol neu genedlaethol sy'n edrych ar faterion diogelu, gan gynnwys mentrau cenedlaethol ac adolygiadau cymhleth.

Ni fyddai ymarferwyr grŵp E o reidrwydd yn bobl ar y lefelau uchaf mewn sefydliadau, gan mai grŵp F fyddai'r rheiny (yn cynnwys aelodau etholedig, aelodau bwrdd a phrif weithredwyr). Mae gan bobl grŵp F bwerau penderfynu lefel uwch cyffredinol, ni fyddent yn trin manylion y broses ddiogelu ac yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r broses hon. O bosibl, ni fyddai ganddynt chwaith y wybodaeth angenrheidiol i roi cyngor ac arweiniad arbenigol ar faterion diogelu.

Egwyddorion cofiadwy:

- Rwy'n goruchwylio'n strategol yr holl faterion diogelu yn y sefydliad

- Byddaf yn ceisio sicrhau bod gennym ddigon o adnoddau i gyflawni dyletswyddau diogelu'r sefydliad
- Byddaf yn defnyddio fy ngwybodaeth a'm dylanwad i wella arferion diogelu yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Grŵp E: Rolau arbenigol neu arweinwyr sector

a) Cymwyseddau craidd (arweinwyr sector).

Gall pobl gyflawni'r tasgau hyn neu eu dirprwyo i eraill a byddant yn goruchwylio'r gwaith ac yn atebol amdano.

1. Fel sydd wedi ei nodi yn grŵp A i D.
2. Darparu cymorth a sicrhau eich bod yn cyfrannu at arfarnu'r gwaith o ddiogelu gan ddarparu goruchwyliaeth briodol ar gyfer diogelu ar draws y sefydliad.
3. Sicrhau bod staff ar draws y sefydliad yn gallu manteisio ar y cyfleoedd datblygu a hyfforddi angenrheidiol ar ddiogelu, a bod amser wedi'i neilltuo ar gyfer dysgu. Dylid sicrhau bod gwerthuso a monitro'n digwydd, sy'n gysylltiedig â chanfyddiadau ac argymhellion o adolygiadau ymarfer.
4. Hyrwyddo'r ddelfryd bod yr holl hyfforddiant diogelu yn hyfforddiant amlasiantaethol, lle bynnag y bo'n bosibl, o grŵp B i fyny.
5. Bod yn atebol am sicrhau ansawdd a gwella diogelu er mwyn sicrhau bod yna brosesau cadarn a sicrhau arloesedd a newid er mwyn gwella diogelu ar draws y sefydliad.
6. Cymryd arweiniad strategol a phroffesiynol ar draws y sefydliad ar bob agwedd ar ddiogelu.

b) Cymwyseddau craidd (rolau arbenigol).

1. Parhau i gynnal eich sgiliau a'ch arbenigedd yn eich maes gwybodaeth penodol i gefnogi'r broses ddiogelu.
2. Rhoi cyngor ac arweiniad strategol ac arbenigol, gyda'r nod o wella ansawdd gweithgarwch diogelu yn barhaus er mwyn gwella canlyniadau i'r rhai y nodwyd bod ganddynt bryderon diogelu.
3. Darparu cyngor ac arweiniad arbenigol i fyrddau a swyddogion gweithredol sefydliadau comisiynwyr ar bob mater sy'n ymwneud â diogelu, gan gynnwys rheoleiddio ac arolygu, a rheoli eu disgwyliadau.
4. Rhoi cyngor strategol ac arbenigol i gynllunwyr a chomisiynwyr gwasanaethau, gan sicrhau bod yr holl wasanaethau a gomisiynir yn bodloni'r gofyniad statudol i ddiogelu a hyrwyddo lles pobl.

Gwybodaeth, sgiliau, agweddau a gwerthoedd

Dylai ymarferwyr grŵp E feddu ar y wybodaeth, y sgiliau, yr agweddau a'r gwerthoedd a nodir yn y grwpiau A i D.

c) Gwybodaeth.

1. Gwybodaeth fanwl am bolisïau perthnasol cenedlaethol yng Nghymru a’r DU ac yn rhyngwladol, a’u goblygiadau ar gyfer ymarfer.
2. Deall yr holl ddeddfwriaeth sy’n berthnasol i ddiogelu fel y mae wedi ei nodi yn y Cyflwyniad.
3. Gwybod pryd mae angen cyngor cyfreithiol mewn perthynas â materion llys a gallu defnyddio'r cyngor hwn i benderfynu ar gamau gweithredu, os oes angen.
4. Arwain y gwaith o weithredu canllawiau cenedlaethol ac archwilio effeithiolrwydd ac ansawdd gwasanaethau ar draws y sefydliad yn erbyn safonau ansawdd.
5. Ymwybyddiaeth gadarn o wahanol arbenigeddau a rolau proffesiynol yn eich sefydliad ac asiantaethau eraill.

ch) Sgiliau.

1. Arwain (neu ddirprwyo) cyfraniad y sefydliad at adolygiadau diogelu (fel adolygiadau ymarfer plant, adolygiadau ymarfer oedolion neu adolygiadau dynladdiad domestig), dod i gasgliadau a datblygu cynllun gweithredu y cytunwyd arno i fynd i'r afael â'r gwersi a ddysgwyd.
2. Arwain a chydweithio â chydweithwyr mewn rhwydweithiau diogelu lleol, ` rhanbarthol a chenedlaethol .
3. Goruchwylio, arfarnu a chefnogi ymarferwyr grŵp D.
4. Arwain (neu ddirprwyo) adolygiadau tîm amlddisgyblaethol.
5. Gwerthuso a diweddaru gweithdrefnau a pholisïau lleol yng ngoleuni materion a datblygiadau perthnasol cenedlaethol yng Nghymru a'r DU ac yn rhyngwladol.
6. Datrys safbwyntiau gwahanol ymhlith staff yn eich sefydliad ac asiantaethau eraill, gan gynnwys gweithredu os derbynnir cwyn gan asiantaeth bartner am arferion diogelu.
7. Ymdrin yn rhagweithiol â chyfathrebu strategol a'r cyfryngau (os oes angen yn ôl eu rôl) ar ddiogelu ar draws y sefydliad.
8. Arwain, dadansoddi a dirprwyo asesiadau cadarn o anghenion y boblogaeth ym maes diogelu sy'n sefydlu gofynion gwasanaethau ar draws y sefydliad ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
9. Dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch heriau buddsoddi mewn gwasanaethau a chyfleoedd i ddiogelu pobl a chyflwyno sail dystiolaeth i swyddogion gweithredol.
10. Rhoi cyflwyniadau strategol lefel uchel i ddylanwadu ar ddatblygiad sefydliadol.
11. Gweithio mewn partneriaeth ar brosiectau strategol gydag uwch swyddogion a chydweithwyr diogelu yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

d) Agweddau a gwerthoedd.

Fel mae grwpiau A i D yn nodi.

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Safonau diogelu grŵp F

Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol - grŵp F.

Cyhoeddwyd gyntaf: 20 Hydref 2022

Diweddariad olaf: 2 Hydref 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol/safonau-diogelu-grwp-f am y fersiwn diweddaraf.

Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol - grŵp F.

Pwyntiau pwysig i’w nodi

1. Mae’r safonau hyn yn cyfeirio at rai rolau enghreifftiol, ond nid ydynt yn nodi’r holl rolau a chyfrifoldebau ar draws y sector. Felly, dyletswydd sefydliadau yw nodi
   o fewn eu gweithlu eu hunain, pa rolau sy’n gweddu i grwpiau penodol. Wrth bennu hyfforddiant priodol ar gyfer pob aelod staff, bydd angen i’r sefydliad sicrhau bod yr aelod staff wedi ei osod yn y grŵp sy’n briodol ar ei gyfer. Os yw
   sefydliadau neu reolwyr yn ansicr pa grŵp yw’r un priodol, ac os yw’r rôl yn perthyn i fwy nag un grŵp, disgwylir i’r ymarferydd gael ei hyfforddi yn y grŵp uwch, er enghraifft os yw gweithiwr yn perthyn i grŵp B ac C, dylid ei hyfforddi ar lefel grŵp C.
2. Drwy’r safonau i gyd, disgwylir i bob ymarferydd sy’n cychwyn mewn rôl newydd o grŵp B ymlaen fod wedi cwblhau hyfforddiant yn y grwpiau blaenorol cyn cychwyn y rôl. Fel arall, dylid ei gefnogi i gwblhau’r hyfforddiant yn ystod chwe mis cyntaf ei gyfnod sefydlu.

Rolau a chyfrifoldebau

Ymarferwyr grŵp F yw'r bobl ar y lefel uchaf mewn sefydliad. Un person mewn unrhyw sefydliad sector cyhoeddus fydd yn bennaf gyfrifol am ddiogelu. Byddai hyn fel arfer yn ymwneud â diogelu corfforaethol ac nid yw hyn yr un fath â bod yn bennaf gyfrifol am wneud penderfyniadau yn y broses ddiogelu (fel y nodir yma). Dylai pob ymarferydd grŵp F gael mynediad at gyngor ac arbenigedd diogelu gan weithwyr proffesiynol dynodedig neu enwebedig.

Nid oes angen yr un wybodaeth fanwl am ddiogelu ar ymarferwyr grŵp F ag ymarferwyr grŵp F gan nad oes angen iddynt o reidrwydd gael yr un lefel o arbenigedd a sgiliau. Ond mae arnynt angen yr ymwybyddiaeth sylfaenol o ddiogelu a welir yng Ngrŵp A. Dylent hefyd gwblhau hyfforddiant ad hoc perthnasol, megis Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl sydd wedi'i fwriadu ar gyfer y grŵp hwn.

Egwyddorion cofiadwy:

- Rwy’n rhoi arweiniad sy'n cwmpasu diogelu yn y sector cyhoeddus ac yn hyrwyddo gwaith amlasiantaethol bob amser
- Rwy’n deall elfennau craidd diogelu ac yn deall pam mae’r maes hwn yn bwysig
- Mae ymarferwyr grŵp E yn fy arwain ac yn rhoi sicrwydd i mi ar feysydd sy'n peri pryder.

Grŵp F: Rolau arbenigol ac arweinwyr sector (Yn cyfateb i Lefel 5 mewn iechyd)

a) Cymwyseddau craidd.

- Fel mae grŵp A yn ei nodi.
- Sicrhau bod y sefydliad yn bodloni canllawiau a safonau perthnasol cenedlaethol Cymru a'r DU ar gyfer diogelu.
- Hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o ddiogelu, gan gynnwys sicrhau bod yna weithdrefnau mwy diogel ar gyfer recriwtio staff, chwythu'r chwiban, polisïau priodol ar gyfer diogelu (gan gynnwys diweddaru rheolaidd) a bod staff a'r cyhoedd yn ymwybodol bod y sefydliad yn cymryd diogelu o ddifrif ac y bydd yn ymateb i bryderon am les pobl.
- Penodi cyfarwyddwr gweithredol sy'n arwain ar ddiogelu.

- Sicrhau bod arferion diogelu ac amddiffyn da yn digwydd ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Sicrhau bod gan wasanaethau gweithredol adnoddau i gefnogi ac ymateb i ofynion diogelu yn effeithiol.
- Sicrhau bod strategaeth effeithiol ar gyfer hyfforddi a goruchwylio diogelu yn cael adnoddau ac yn cael ei darparu.
- Sicrhau a hyrwyddo arferion gwaith partneriaeth priodol, diogel ac amlasiantaethol a sicrhau bod arferion rhannu gwybodaeth yn digwydd o fewn y sefydliad.
- Sicrhau bod prosesau llywodraethu cadarn ar waith i roi sicrwydd ynghylch diogelu.
- Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu plant ac oedolion yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd.

b) Gwybodaeth, sgiliau, agweddau a gwerthoedd.

1. Deall rôl a chyfrifoldebau rhianta corfforaethol eu sefydliad.
2. Deall achosion a chanlyniadau posibl esgeulustod difrifol.
3. Deall yr asiantaethau sy'n ymwneud â diogelu ac amddiffyn, eu rolau a'u cyfrifoldebau, a phwysigrwydd cydweithredu amlasiantaethol.
4. Deall y rhwymedigaethau statudol i weithio gyda'r bwrdd diogelu rhanbarthol ac asiantaethau diogelu eraill, gan gynnwys y sector gwirfoddol.
5. Deall y rhwymedigaethau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud â diogelu ac amddiffyn.
6. Deall y rhwymedigaeth statudol i gymryd rhan mewn adolygiadau ymarfer, adolygiadau dynladdiad domestig a phrosesau adolygu eraill, megis yr ymateb gweithdrefnol i farwolaethau annisgwyl mewn plant (PRUDIC), a gweithredu'r hyn a ddysgir ohonynt.
7. Deall bod angen darparu a chydymffurfio â hyfforddiant staff mewn sefydliadau comisiynu a darparu a bod hyn yn anghenraid sefydliadol.
8. Deall pwysigrwydd polisïau diogelu ac amddiffyn ar gyfer personél, gan gynnwys defnyddio fetio a gwahardd a recriwtio diogel. Bod yn ymwybodol o'r

angen i'w diweddaru a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion y sefydliad.

9. Deall y prosesau rheoleiddio ac arolygu a'r goblygiadau i'r sefydliad os nad yw comisiynwyr neu ddarparwyr yn bodloni'r safonau.
10. Deall pwysigrwydd adrodd yn rheolaidd a monitro trefniadau diogelu o fewn sefydliadau darparwyr.
11. Deall beth yw risg diogelu ar lefel bwrdd a bod angen cael trefniadau ar waith ar gyfer adrodd a gweithredu'n gyflym ar gyfer digwyddiadau difrifol, gan gynnwys dyletswydd i hysbysu’r heddlu yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol.
12. Deall a bod yn ymwybodol bod angen i'r bwrdd gael mynediad at gyngor arbenigol priodol ar faterion diogelu ac amddiffyn gan weithwyr proffesiynol dynodedig.

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Termau

Termau a ddefnyddir yn y Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 20 Hydref 2022

Diweddariad olaf: 2 Hydref 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol/safonau-diogelu-termau am y fersiwn diweddaraf.

Rydym wedi gwneud pob ymdrech i ddefnyddio'r un termau yn y Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y termau hyn yn rhestr termau Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Rydym hefyd wedi tynnu sylw at dermau eraill a ddefnyddir yn y safonau i'w hegluro'n fanylach yma:

Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod: Mae'r rhain yn ddigwyddiadau trawmatig, yn enwedig y rhai yn ystod plentyndod cynnar sy'n effeithio'n sylweddol ar iechyd a llesiant pobl.

Mae'r profiadau hyn yn amrywio o ddioddef cam-drin geiriol, meddyliol, rhywiol a chorfforol, i fagwraeth ar aelwyd lle mae yna cam-drin domestig, camddefnyddio alcohol, rhieni'n gwahanu neu gamddefnyddio cyffuriau.

Hebryngwr (chaperone): Mae hebryngwyr yn gofalu am blentyn/plant yn eu gofal yn ystod perfformiadau a gweithgareddau eraill. Cânt eu cymeradwyo gan awdurdod lleol os na all rhiant neu athro hebrwng y plentyn.

Mae hebryngwr ffurfiol yn berson sydd wedi'i hyfforddi'n briodol a'i rôl yw arsylwi ar archwiliadau neu driniaethau a gyflawnir gan ymarferwyr iechyd. Mae hebryngwyr yn bresennol i gefnogi ac i amddiffyn cleifion ac ymarferwyr gofal iechyd.

Rheolaeth drwy orfodaeth: Dyma pan fydd person y mae gennych chi gysylltiad personol ag ef / hi yn ymddwyn dro ar ôl tro mewn ffordd sy'n gwneud i chi deimlo'n rheoledig, yn ddibynnol, yn unig, wedi'ch bychanu neu'n ofnus.

Cyfrinachedd: Mae diogelwch a lles unigolyn yn cael blaenoriaeth dros yr angen i gynnal cyfrinachedd proffesiynol. Dylai'r ymarferydd wneud natur a phwrpas y cais yn glir, a chofnodi'r cais a'r ymateb yn ysgrifenedig.

“Rhaid i ymarferwyr rannu gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac yn unol â dyletswydd cyfrinachedd cyfraith gwlad. Mae’r ddau gyfrwng yn caniatáu rhannu gwybodaeth ac ni ddylid eu defnyddio yn awtomatig fel rheswm i beidio â gwneud hynny. O dan amgylchiadau eithriadol, gellir rhannu gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon heb ganiatâd os yw’n ofyniad cyfreithiol neu os bydd y gweithiwr proffesiynol o’r farn bod hynny er lles y cyhoedd. Un o’r amgylchiadau eithriadol yw er mwyn atal camdriniaeth neu niwed difrifol i eraill.” *Gweithio gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 1*

Cyn belled â'ch bod yn gallu dal at yr hyn rydych wedi'i wneud a chyfiawnhau ei fod er lles pennaf y plentyn neu'r unigolyn, dyna'r peth cywir i'w wneud. Cofiwch, mae diffyg rhannu gwybodaeth yn thema sydd wedi codi dro ar ôl tro dros y degawd diwethaf mewn adolygiadau ymarfer plant ac oedolion.

Dyletswydd gonestrwydd: Dylech ddeall yr angen i fod yn atebol am eich gwaith eich hun. Mae hyn yn cynnwys bod yn agored ac yn onest gyda phobl os aiff pethau o chwith, gan gynnwys rhoi esboniad llawn a phrydlon i'ch cyflogwr, neu'r awdurdod priodol, o'r hyn sydd wedi digwydd. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn nodi'r ddyletswydd ar gyfer corff y GIG.

Dyletswydd gofal:

- Gweithredu er lles gorau'r unigolyn ac eraill bob amser
- Peidi â gweithredu, neu fethu â gweithredu, mewn ffordd sy'n arwain at niwed
- Gweithredu o fewn eich cymhwysedd ac uwchgyfeirio os ydych yn ansicr.

Salwch ffug neu salwch syn cael ei achosi gan eraill:

Mae hyn yn digwydd pan fydd rhiant neu ofalwr yn gorliwio neu'n achosi symptomau salwch yn fwriadol mewn plentyn. Bydd y rhiant neu'r gofalwr yn ceisio argyhoeddi gweithwyr proffesiynol neu eraill bod eu plentyn yn sâl neu fod ei gyflwr yn waeth nag ydyw mewn gwirionedd.

Nid yw'r rhiant neu'r gofalwr o reidrwydd yn bwriadu twyllo, ond mae ei ymddygiad yn debygol o niweidio'r plentyn. Er enghraifft, efallai y bydd y plentyn yn cael triniaeth neu brofion diangen, yn cael ei orfodi i gredu ei fod yn sâl neu bydd y sefyllfa'n tarfu ar ei addysg.

Canllawiau Fraser:

Mae cymhwysedd Gillick a chanllawiau Fraser yn cyfeirio at achos cyfreithiol a oedd yn edrych yn benodol ar p'un a ddylai meddygon allu rhoi cyngor neu driniaeth atal cenhedlu i bobl ifanc dan 16 oed heb ganiatâd rhieni. Ond ers hynny, maent wedi cael eu defnyddio'n ehangach i helpu i asesu a oes gan blentyn yr aeddfedrwydd i wneud ei benderfyniadau ei hun ac i ddeall goblygiadau'r penderfyniadau hynny.

Enghreifftiau eraill o fframweithiau diogelu:

- Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC)
- Trefniadau Amlasiantaethol i Ddiogelu'r Cyhoedd (MAPPA)
- Dyletswydd Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)
- Diogelu Cyd-destunol
- Canllawiau ar y ddyletswydd i atal

Ymddygiad rhieni neu ofalwyr a ffactorau teuluol: Gall y rhain gynnwys camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig, straen, cydymffurfiaeth gelwyddog ac iechyd meddwl.

Cyflawnwr: Person sy'n cyflawni gweithred niweidiol, anghyfreithlon neu anfoesol. Gallwch ddod o hyd i enghreifftiau o ymddygiad cyflawnwr yn Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Adolygiad ymarfer: Cynhelir adolygiadau ymarfer diogelu ar ran y byrddau diogelu rhanbarthol. Maent yn ffordd i bob asiantaeth bartner nodi'r gwersi y

gellir eu dysgu o achosion arbennig o gymhleth neu anodd a rhoi newidiadau ar waith i wella gwasanaethau yng ngoleuni'r gwersi hyn.

Diben y system adolygu yw hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o ddysgu amlasiantaethol ac arfer gorau.

PRUDIC (Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn Ystod Plentyndod) **:** Mae'r weithdrefn hon yn gosod safon ofynnol ar gyfer ymateb i farwolaethau annisgwyl yn ystod babandod a phlentyndod. Mae'n disgrifio'r broses o gyfathrebu, cydweithredu a rhannu gwybodaeth yn dilyn marwolaeth annisgwyl plentyn.

Mae'r PRUDiC yn berthnasol i bob marwolaeth annisgwyl mewn plant o'u genedigaeth tan eu pen-blwydd yn 18 oed, boed hynny o achosion naturiol, annaturiol, hysbys neu anhysbys, gartref, yn yr ysbyty neu yn y gymuned· Mae hyn yn cynnwys gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd, hunanladdiadau ymddangosiadol a llofruddiaethau. Nid yw hyn yn cynnwys marw-enedigaethau a marwolaeth babanod cyn-hyfyw a anwyd cyn 24 wythnos.

Canolbwyntio ar ganlyniadau: Mae'r rhain yn nodau realistig y cytunwyd arnynt y gall y sawl sy'n defnyddio gwasanaethau neu ddarpariaeth a'u gweithiwr allweddol weithio tuag atynt. Fel arfer, maent yn ymwneud â chefnogi lles yr unigolyn. Bydd y canlyniadau'n amrywio o berson i berson ac o blentyn i blentyn oherwydd eu bod yn ymwneud â'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn hwnnw.

Seiliedig ar gryfderau: Mae dull seiliedig ar gryfderau yn edrych - mewn ffordd gydweithredol neu sy'n canolbwyntio ar y plentyn neu'r unigolyn - ar alluoedd ac amgylchiadau'r unigolyn. Mae angen i chi gael darlun llawn o'i fywyd, felly mae'n bwysig cynnwys a gweithio gydag eraill, fel asiantaethau eraill a rhwydwaith y person, gyda'r caniatâd priodol.

Prawf galluedd dau gam: Mae’r Ddeddf Galluedd Meddyliol (MCA) wedi'i chynllunio i ddiogelu a grymuso pobl nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu gofal a'u triniaeth. Mae'n berthnasol i bobl 16 oed a throsodd.

Mae'n ymdrin â phenderfyniadau am bethau bob dydd, megis beth i'w wisgo neu beth i'w brynu pan fyddwch chi’n mynd i siopa, neu benderfyniadau difrifol sy'n newid bywydau, megis a ddylid symud i gartref gofal neu gael llawdriniaeth fawr.

Mae'r Ddedf Galluedd Meddyliol yn nodi prawf dau gam o alluedd:

1. A oes gan y person nam ar y meddwl neu’r ymennydd o ganlyniad i salwch, neu ffactorau allanol fel defnyddio alcohol neu gyffuriau?
2. A yw'r nam yn golygu nad yw'r person yn gallu gwneud penderfyniad penodol pan fydd angen? Ni fydd gan rai pobl y galluedd i wneud rhai penderfyniadau ond mae ganddynt y gallu i wneud rhai eraill. Gall galluedd meddyliol amrywio gydag amser hefyd – efallai na fydd gan rywun alluedd ar un adeg ond efallai y gall wneud yr un penderfyniad yn ddiweddarach.

Chwythu’r Chwiban: Dyma'r term a ddefnyddir yn aml pan fydd rhywun sy'n gweithio i sefydliad am godi pryder er budd y cyhoedd gyda rhywun mewn awdurdod. Fel arfer, mae'n ymwneud â chamweddau, megis twyll, diogelwch y cyhoedd, diogelu, camarfer, perygl, anghyfreithlondeb neu guddio’r materion hyn.

Pan fyddwch yn 'chwythu'r chwiban', byddwch yn codi pryderon ac yn rhoi gwybod am amheuon o gamweddau neu beryglon mewn perthynas â'ch sefydliad, staff neu'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer cymunedau lleol. Mae hyn yn cynnwys:

- gweithgarwch troseddol

- diffyg cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol neu broffesiynol neu ofynion rheoliadol
- camweinyddu cyfiawnder
- perygl i iechyd a diogelwch
- difrod i’r amgylchedd
- cuddio unrhyw un o’r uchod yn fwriadol.

Gall hyn eich helpu i ddeall y mathau o faterion y gellir eu codi (ond nid yw'n rhestr gyflawn):

- cam-drin plant neu oedolion sy'n agored i niwed (corfforol, rhywiol neu emosiynol)
- torri polisïau a gweithdrefnau, gan gynnwys y rheolau sefydlog, gweithdrefnau ariannol a chod ymddygiad gweithwyr
- ymddygiad sy'n debygol o niweidio enw da neu les ariannol eich sefydliad, fel defnydd llygredig neu afreolaidd o arian neu adnoddau cyhoeddus
- diffygiol wrth ddiogelu gwybodaeth bersonol a sensitif (diogelu data)
- darparu gwerth gwael am arian
- rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol heb awdurdod
- esgeulustod a chamreoli difrifol
- camddefnyddio pŵer
- camweinyddu cyfiawnder
- twyll a llygredd, er enghraifft, rhoi neu dderbyn rhywbeth fel llwgrwobrwyo.

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Adnoddau defnyddiol

Adnoddau defnyddiol ar gyfer y safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 20 Hydref 2022

Diweddariad olaf: 2 Hydref 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol/safonau-diogelu-adnoddau-defnyddiol am y fersiwn diweddaraf.

Adnoddau defnyddiol ar gyfer y safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol.

Adnoddau deddfwriaethol a gweithdrefnol:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020
- Deddf Troseddau Difrifol 2015
- Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
- Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol

Canllawiau:

- Rhan 7 Canllawiau Cyfrolau 1-6 Deddf SSWB(Cymru)2014
- Cadw dysgwyr yn ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002
- Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod (PRUDiC)

Safonau hyfforddi asiantaethau unigol:

- Dogfen Ryng-golegol GIG Cymru
- Gwaith Da: Fframwaith Dysgu a Datblygu Dementia i Gymru

- Pecyn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelu - Gofal Cymdeithasol Cymru

Adnoddau dysgu a datblygu:

- Adnoddau dysgu a datblygu Gofal Cymdeithasol Cymru
- Ymchwil Camdriniaeth Ddomestig Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE)
- Adnoddau'r NSPCC
- Briff Hysbysiadau Diogelu'r Heddlu (Heddlu yn unig)

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Cwestiynau cyffredin am y safonau

Rydym wedi casglu'r cwestiynau mwyaf cyffredin am y safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol ar y dudalen hon.

Cyhoeddwyd gyntaf: 23 Ionawr 2023

Diweddariad olaf: 2 Hydref 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol/safonau-diogelu-cwestiynau-cyffredin am y fersiwn diweddaraf.

Rydym wedi casglu'r cwestiynau mwyaf cyffredin am y safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol ar y dudalen hon.

Byddwn yn diweddaru'r dudalen hon yn rheolaidd gydag unrhyw gwestiynau eraill sy'n codi.

Pam ei bod hi'n bwysig cael dull safonol ar gyfer dysgu a datblygu yn ymwneud â diogelu?

Mae cael y safonau hyn yn gwneud y canlynol:

- rhoi sicrwydd i sefydliadau bod gan bob ymarferydd a gwirfoddolwr yr un lefel o ddysgu a datblygu wrth symud o un sefydliad i'r llall yng Nghymru
- gwella dysgu a datblygu amlasiantaethol
- darparu iaith gyffredin ac annog sefydliadau ac ymarferwyr i gydweithio
- helpu sefydliadau a chomisiynwyr i sicrhau bod sefydliadau'n cydymffurfio â'r safonau.

Sut galla i ddefnyddio'r safonau yn fy sefydliad?

Gallwch ddefnyddio'r safonau i gynllunio a llywio cyfleoedd dysgu a datblygu ac i gefnogi dysgu amlddisgyblaethol.

Gall sefydliadau addysg, fel prifysgolion, colegau addysg bellach ac ysgolion, ddefnyddio'r safonau i ddarparu strwythur clir ar gyfer dysgu a datblygu'n ymwneud â diogelu.

Gall pob sefydliad (gwasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector annibynnol) hefyd eu defnyddio i lunio adroddiadau am ymarfer a pherfformiad diogelu.

Beth yw pwrpas y safonau? Beth rydym yn ei wneud â nhw?

Pwrpas y safonau hyn yw gwneud yn siŵr bod pawb yng Nghymru yn cael dysgu a datblygu cyson o ansawdd da yn ymwneud â diogelu. Oherwydd bod y dysgu a'r datblygu hwn yn berthnasol i'w rôl a'u cyfrifoldebau, byddant yn gallu diogelu pobl hyd eithaf eu gallu. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd hefyd i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

Bydd y safonau yn helpu sefydliadau i sicrhau'r canlynol:

- bod diogelwch a lles y plentyn neu'r oedolyn yn ganolog i'w gwaith
- bod ymarferwyr yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n grymuso a galluogi
- eu bod yn ymgorffori'r safonau yn eu polisïau a'u gweithdrefnau diogelu
- bod ymarferwyr yn gwybod pa grŵp y maen nhw ynddo ac yn deall eu cyfrifoldebau fel rhan o'r grŵp hwnnw, a sut i ddilyn y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol iddyn nhw
- bod pob ymarferydd yn gallu cael mynediad at Weithdrefnau Diogelu Cymru a chydymffurfio â nhw
- bod ffocws i’w dadansoddiad o anghenion hyfforddi, a bod cyfleoedd dysgu a datblygu yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar ymarferwyr fel y byddant yn fwy tebygol o allu adnabod materion diogelu yn gynnar ac adrodd arnynt yn gynnar
- bod gan ymarferwyr y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i fod yn fedrus ac yn hyderus, a bod prosesau ar waith i ofalu am eu lles

- bod cymuned fwy diogel i bawb wrth i'r holl asiantaethau weithio gyda'i gilydd.

Pam mae’r safonau diogelu mewn grwpiau yn hytrach na lefelau?

Dewisodd y grŵp datblygu'r term 'grwpiau' er mwyn trefnu ymarferwyr yn ôl eu rolau **a'u** cyfrifoldebau. Mae hyn yn golygu y gall sefydliadau ac ymarferwyr ddefnyddio'r safonau yn hyblyg oherwydd ar gyfer rhai rolau, bydd angen i ymarferwyr gael yr wybodaeth a'r sgiliau o grŵp gwahanol.

Mae’r 'grwpiau’ yn y safonau yn cyd-fynd â'r 'lefelau' a nodir yn *Rolau a Chymwyseddau'r GIG ar gyfer Staff Gofal Iechyd*. Er enghraifft, mae Grŵp A yr un fath â Lefel 1.

Beth yw manteision y safonau?

Mae'r safonau yn sicrhau bod dyluniad, cynnwys a darpariaeth hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu ar hyd a lled Cymru yn gyson.

Mae'r safonau yn nodi'n glir beth yn union sy'n briodol ei gynnwys mewn hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu ar gyfer ymarferwyr yng Nghymru.

Lle y bo'n bosibl, dylai hyfforddiant, dysgu a datblygu fod yn amlasiantaethol. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth o rôl pob ymarferydd mewn gwaith ymyrryd yn gynnar ac atal ac yn y broses ddiogelu.

Beth oedd yr heriau wrth ddatblygu'r safonau? Sut gwnaethoch chi eu goresgyn?

Roedd yr iaith a ddefnyddiwyd yn her. Bu’n trafodaethau'n canolbwyntio ar 'lefelau' yn erbyn 'grwpiau', gyda 'lefelau' yn cael eu harwain gan yr hyn a ddefnyddiwyd yn y sector iechyd.

Roedd lleisiau cyfartal a chyfle cyfartal yn cael eu hystyried yn her i ddechrau, ond roeddent yn hanfodol i ddatblygu'r safonau. Roedd yn rhaid i'r holl sefydliadau dan sylw ddeall a pharchu anghenion ei gilydd ac roedd yr empathi cyffredin hwn o fudd i ddatblygiad y safonau. Roedd yn bwysig hefyd bod pawb yn deall rôl y sector gwirfoddol yn y broses ddiogelu.

O gael trafodaethau, cydweithio a deall anghenion ei gilydd, roedd y grŵp datblygu yn gallu gweld safbwyntiau ei gilydd a meddwl beth oedd ystyr y safonau a'r fframwaith i bob sefydliad a sector. Roedd hyn yn caniatáu i ni greu safonau dysgu a datblygu cyffredin ar gyfer diogelu a fframwaith hyfforddiant, dysgu a datblygu.

Mae pawb fu ynghlwm â’r gwaith nawr yn teimlo bod y safonau a'r fframwaith yn berthnasol i'w sefydliad a'u sector – maen nhw’n berthnasol i bawb ac yn perthyn i bawb. Dyma'r gwir gamp!

Beth yw'r heriau wrth roi'r safonau ar waith?

Yr her yw pwy fydd yn datblygu'r hyfforddiant, y dysgu a'r datblygu sy'n gorfod dilyn y safonau a'r fframwaith, a phwy fydd yn darparu'r hyfforddiant hwnnw. Bydd talu amdano yn her hefyd. Mae angen buddsoddi mewn hyfforddiant, dysgu a datblygu a bydd angen amser i ffwrdd ar staff i fynychu a/neu

ddarparu'r hyfforddiant.

Mae gosod amserlenni ar gyfer datblygu a gweithredu'r safonau a'r fframwaith yn her hefyd, er mwyn sicrhau bod pob sefydliad , ymarferydd a gwirfoddolwr yn cyrraedd cerrig milltir tebyg ar yr un pryd. Bydd angen i bawb gefnogi'r safonau a'r fframwaith, ac mae angen i bawb deimlo eu bod yn berthnasol iddyn nhw.

Ymhlith yr heriau eraill y mae'r ofn tybiedig o ddiogelu, ac "Ai fy nghyfrifoldeb i yw hyn?" "Ydy fy enw i ar hyn?" Mae'r safonau'n rhoi cyfrifoldeb ar rai ymarferwyr penodol i ddeall a chymhwyso gweithdrefnau diogelu pan nad oedd hyn efallai wedi bod yn rhywbeth roeddent yn disgwyl ei wneud.

Oes rhaid i mi ddefnyddio'r safonau wrth feddwl am hyfforddiant diogelu neu wrth ei gynnal?

Bu pob maes o'r sector gofal cymdeithasol a gofal iechyd yn ymwneud â datblygu'r safonau, felly mae disgwyl i sefydliadau gydymffurfio â nhw’n wirfoddol.

Y Byrddau Diogelu Rhanbarthol sy'n berchen ar y safonau a'r fframwaith, ac mae hyn yn rhoi disgwyliad clir ar bob sefydliad i gydymffurfio â'r safonau.

Bydd disgwyl i’r holl bartneriaid statudol a sefydliadau cysylltiedig eraill gymhwyso'r safonau a'r fframwaith wrth gyflawni eu rolau.

Beth yw rôl y Byrddau Diogelu Rhanbarthol wrth roi'r safonau ar waith?

Bu pob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r safonau. **Partneriaid y byrddau diogelu rhanbarthol** sy'n berchen ar y safonau a'r fframwaith.

Byddant yn gwneud y canlynol:

- mabwysiadu'r safonau a'u cynnwys mewn polisïau a phrosesau diogelu rhanbarthol
- pwysleisio eto sut dylid defnyddio'r safonau i ddylunio, datblygu, darparu, monitro a gwerthuso hyfforddiant, dysgu a datblygu
- annog pobl i ddefnyddio'r safonau a'r fframwaith i osod disgwyliadau clir ar gyfer darparwyr hyfforddiant, dysgu a datblygu
- bod yn gyfrifol am nodi hyfforddwyr priodol, hyderus, cymwysedig a phrofiadol i ddarparu'r rhaglenni dysgu.

Pwy fydd yn monitro ac yn adolygu'r safonau? Pa mor aml fydd hyn yn digwydd?

Bydd y Grŵp Adolygu Safonau Diogelu yn cael ei sefydlu yn gynnar yn 2023. Bydd yn monitro ac yn adolygu sut mae'r safonau'n cael eu rhoi ar waith. Bydd y grŵp yn cynnwys rhai aelodau o'r grŵp datblygu, yn ogystal ag aelodau newydd.

Bydd y safonau'n cael eu hadolygu bob tri mis ar ôl eu lansio - ym misoedd Ebrill, Gorffennaf a Hydref 2023 ac ym mis Ionawr 2024.

Pryd fydd y fframwaith hyfforddiant dysgu a datblygu diogelu ar gael?

Caiff ei gyhoeddi yn gynnar yn 2023. Ni fydd lansiad ffurfiol, ond byddwn yn rhoi gwybod i bawb pan fydd yn cael ei gyhoeddi.

A fydd yr hyfforddiant diogelu wedi'i achredu, ac os felly, sut? Beth fydd y broses ar gyfer sicrhau ansawdd yr hyfforddiant?

Ar hyn o bryd, nid yw'r safonau a'r fframwaith wedi'u hachredu ac nid ydynt wedi mynd drwy broses sicrhau ansawdd.

Bydd y Grŵp Adolygu Safonau Diogelu yn ymchwilio i hyn.

Beth yw'r amserlenni ar gyfer cwblhau hyfforddiant a hyfforddiant diweddaru?

Nid ydym wedi cytuno i unrhyw amserlenni eto. Bydd amserlenni y cytunwyd arnynt yn cael eu cynnwys yn y fframwaith a byddant ar gael yn gynnar yn 2023.

Ydych chi wedi meddwl am y dryswch y gallai'r safonau ei achosi gyda hyfforddiant presennol sy'n defnyddio'r termau 'lefelau' yn hytrach na 'grwpiau’?

Gall sefydliadau barhau i ddefnyddio eu termau presennol, ond mae'n rhaid iddynt ddangos sut mae eu hyfforddiant, eu dysgu a'u datblygu yn cyd-fynd â'r hyn a nodir yn y safonau. Mae'r safonau'n adeiladu ar y grwpiau a'r lefelau presennol a'u cryfhau.

Pwy sy'n gyfrifol am ddod o hyd i hyfforddwyr digon hyderus/cymwysedig/profiadol i ddarparu'r hyfforddiant, yn enwedig ar gyfer grwpiau C, D, E ac F?

Bydd pob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn gyfrifol am ddod o hyd i hyfforddwyr priodol, hyderus, cymwysedig a phrofiadol i ddarparu'r rhaglenni dysgu.

Gall y Byrddau Diogelu Rhanbarthol ddewis defnyddio'r safonau i'w helpu i ddod o hyd i'r hyfforddwyr gorau i gynnal rhaglenni diogelu er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn ddiogel ac yn effeithiol yn eu rôl.

Sut bydd y mater o gael mynediad at hyfforddiant, dysgu a datblygu yn cael ei ystyried?

Bydd gan y fframwaith ganllawiau clir ar gyfer isafswm amser hyfforddi, ac mae cydweithwyr yn y sector wedi helpu i’w lunio er mwyn adlewyrchu'r pwysau o ran rhyddhau staff. Y gobaith yw y bydd pob sefydliad yn gallu ei gyflawni.

Bydd y fframwaith a'r adborth yn cael eu hadolygu gan y Grŵp Adolygu Safonau drwy gydol 2023.

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Fersiynau hawdd eu deall o'r safonau

Fersiynau hawdd eu deall o'r safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 2 Hydref 2023

Diweddariad olaf: 2 Hydref 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol/fersiynau-hawdd-eu-deall-or-safonau am y fersiwn diweddaraf.

Fersiynau hawdd eu deall o'r safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol.

> Hawliau oedolion - fersiwn hawdd ei ddeall
>
> PDF 626KB

> Hawliau plant a phobl ifanc - fersiwn hawdd ei ddeall
>
> PDF 535KB